MATERION SGILIAU DYFODOL SYDD YN EFFEITHIO AR SECTORAU DIWYDIANNOL YNG NGHYMRU

Y Sector Twristiaeth, Croesawiaeth a Hamdden

Sgiliaudyfodol Cymru

MATERION SGILIAU DYFODOL SYDD YN EFFEITHIO AR SECTORAU DIWYDIANNOL YNG NGHYMRU

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol tud4

1. Cyflwyniad tud6

2. Y sector twristiaeth tud7

3. Materion sgiliau'r sector tud11

4. Gweithredu presennol ynghylch sgiliau tud16

5. Argymhellion tud16

Atodiad A: Llyfryddiaeth tud20

Atodiad B: Diffiniadau'r dosbarthiad diwydiannol safonol tud20

Atodiad C: Cymwysterau tud21

Atodiad CH: Sectorau yn eu cyd-destun tud21

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn un mewn cyfres a gomisiynwyd gan Fforwm Ymchwil Cymru i Sgiliau'r Dyfodol. Bwriad cyffredinol y prosiect yw ymestyn ac ategu'r gwaith a ddechreuwyd gan brosiect gwreiddiol Sgiliau'r Dyfodol Cymru, oedd yn defnyddio data arolygon a rhagolygon i ragweld beth oedd yr anghenion cyffredinol yng Nghymru. Mae'r prosiect presennol yn ychwanegu astudiaethau o'r angen am sgiliau galwedigaethol yn y dyfodol o fewn sectorau allweddol yng Nghymru. Mae pob astudiaeth sector yn seiliedig ar ymchwil ddesg a chyfweliadau ansoddol gydag ymarferwyr a chyflogwyr, a bwriad pob astudiaeth yw darparu braslun o'r sector, y materion sy'n ymwneud â sgiliau a'r hyn y gellir ei wneud nawr ac yn y dyfodol er mwyn cryfhau'r sector ymhellach.

Mae busnesau a chyflogwyr ym mhob un o'r sectorau a astudiwyd wedi mwynhau llwyddiant aruthrol; dyna pam y daeth y sectorau hyn yn bwysig i Gymru. Ni ddylai'r sylw a roddwn i sgiliau cyfredol daflu cwmwl dros y cyraeddiadau hyn na phenderfyniad pawb dan sylw i gwrdd â'r her sydd o'u blaenau.

Proffil o'r Sector

Mae'r sector Twristiaeth, a gefnogir gan feysydd croesawiaeth a hamdden, yn bwysig i economi Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ond ar yr un pryd mae'n gymhleth iawn o ystyried y canlynol:

- dros 7,500 o fusnesau;
- dros 70,000 o weithwyr:
- mae 85% o fusnesau'n cyflogi llai na 10 o weithwyr;
- mae busnesau wedi'u gwasgaru ar draws y wlad, gyda llawer ohonynt mewn ardaloedd gwledig anghysbell.

Fel y gellir gweld, yn amlach na pheidio mae busnesau'r sector yn fusnesau bychain sy'n wynebu llawer o'r problemau sy'n gyffredin ymhlith cwmnïau bychain, yn enwedig mewn perthynas â rheoli, e.e. cynllunio a marchnata busnes, a chadw staff.

Materion sy'n ymwneud â Sgiliau

Rhagwelir y bydd cyflogaeth y sector yn cynyddu yn y dyfodol, gan greu oddeutu 15,000 o swyddi newydd erbyn y flwyddyn 2003 a hyd at 20,000 erbyn 2010. Fodd bynnag, gan fod llai o bobl yn dilyn cyrsiau AB cysylltiedig, ac o ystyried bod llawer o bobl yn gadael y cyrsiau hynny cyn eu cwblhau a bod nifer fawr o weithwyr newydd yn gadael y sector yn fuan, bydd yn hanfodol sicrhau y gellir ateb y galw cynyddol hwn.

Nodwyd nifer o faterion a allai rwystro'r twf hwn:

- hunaniaeth y brand Cymreig a delwedd wael y sector twristiaeth yn gyffredinol.
- diffyg data cynhwysfawr, sydd ar gael i bawb, ynglŷn ag anghenion y sector o ran sgiliau;
- sylfaen sgiliau gymharol isel ymhlith y gweithlu presennol, gyda 18% heb unrhyw gymwysterau a 25% arall gyda chymwysterau isel;
- mae'n debyg bod prinder sgiliau penodol ymhlith pen-cogyddion, staff cegin eraill a staff cadw tŷ;
- mae diffygion yn bodoli o ran sgiliau gwerthu, rheoli a mentergarwch;
- mae pwysigrwydd sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn tyfu o hyd;
- mae angen cryfhau sgiliau gweithwyr newydd o ran delio wyneb yn wyneb â chwsmeriaid;
- gall diffyg sgiliau ariannol, rheoli, a mentergarwch ymhlith nifer fawr o berchenogion/rheolwyr rwystro twf;
- Mae'r diffyg llwybrau strwythuredig amlwg ar gyfer gyrfaoedd, yn enwedig llwybrau tuag at swyddi rheoli, yn gallu peri i weithwyr adael y sector ac yn gallu effeithio'n negyddol ar ymgeiswyr newydd am swyddi yn y sector.

Gweithredu ynghylch sgiliau

Mae 5 prif thema sy'n cwmpasu'r argymhellion ar gyfer camau gweithredu posibl, amlinellir y rhain fel a ganlyn:

- **Thema 1:** bydd angen ymdrin â nifer o **faterion strategol yn gysylltiedig â rhwydwaith y sector**, os ydym am fynd i'r afael yn effeithiol â'r materion hynny sy'n ymwneud â sgiliau;

- **Thema 2:** mae'r sector yn wynebu amryw o broblemau o ran **prinder sgiliau**, a hynny ers blynyddoedd lawer, ac mae angen ymdrin â'r rhain fel mater o flaenoriaeth.

- **Thema 3:** mae llawer o'r materion sy'n wynebu'r gweithlu presennol yn ymwneud â maint y busnesau dan sylw, ac mae'n rhaid datblygu **ffyrdd arloesol o'u cefnogi**;

- **Thema 4:** mater penodol, a all rwystro datblygiad micro fusnesau, yw **sgiliau'r perchennog/rheolwr**;

- **Thema 5:** ar y cyfan, mae diffyg diddordeb yn y sector o blith gweithwyr presennol a gweithwyr posibl, a bydd **dod o hyd i weithwyr newydd** yn mynd yn anoddach fyth yn y dyfodol.

Ategir y themâu hyn ymhellach gan argymhellion manylach. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r rhain. Gwneir nifer o argymhellion mewn perthynas â gwybodaeth ac ymchwil bellach hefyd, sy'n dilyn yn rhannol strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol:

- dosbarthu Cam 1 Rhagolwg y Sefydliad Hyfforddiant Lletygarwch (HtF) (Hydref 2000);
- ymchwilio i lefel y sgiliau y mae eu hangen yn y sector;
- ymchwilio i effaith deddfwriaeth newydd;
- datblygu dulliau o annog micro fusnesau i gymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad;
- archwilio'r rhesymau nad oes llawer o bobl yn dewis dilyn cyrsiau perthnasol neu'n gadael cyn diwedd y cwrs.;
- archwilio proffiliau busnes, perchnogaeth a chefndir cyflogwyr;
- ymchwilio i nifer y busnesau sy'n cychwyn a'r nifer sy'n methu;
- adolygu llwyddiant wrth gadw staff.

Themâu ac Argymhellion

Rhif y Thema	Rhif Arg.	Cam Gweithredu	Amserlen	Prif Bartneriaid
1	1a	Diffinio brand Cymru	Parhaus	WA/BCC/ Byrddau Twristiaeth Rhanbarthol
	1b	Datblygu Cynllun Cofrestru	Ebrill 2002	WA/BCC/ Byrddau Twristiaeth Rhanbarthol/ TQS
	1c	Datblygu Canolfan Arbenigedd mewn Twristiaeth a Chroesawiaeth	Ebrill 2001 ac yn barhaus	WA/CETW/ Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/UWIC
	1ch	Diffinio'r sector at ddibenion casglu/cymharu data ac ati	Ebrill 2001	BCC a phartneriaid eraill
	1d	Gwneud ymchwil fanylach i nodweddion y sector	Ebrill 2001	TFW/Impact
	1dd	Datblygu dull systematig o fonitro bylchau/prinder sgiliau	Ebrill 2001	Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Impact/ Uned FSW
	1e	Datblygu system gynhwysfawr ar gyfer casglu data	Ebrill 2001	Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Impact/ BCC/Byrddau Twristiaeth Rhanbarthol/ CETW/ Gwasanaeth Cyflogi
	1f	Cefnogaeth strategol i Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru	Awst 2000	Cynulliad/ CETW
	1ff	Cefnogi Impact Wales, yn enwedig Blaenoriaeth Strategol C	Awst 2000	Cynulliad
2	2a	Mapio cymwysterau presennol y diwydiant mewn perthynas â phrinder sgiliau a'u datblygu fel bo'n briodol	Parhaus	CETW/Impact
	2b	Archwilio dulliau cydweithredol o ddelio â phrinder sgiliau	Parhaus	Impact
	2c	Targedu gwybodaeth ynglŷn â llwybrau dyrchafiad e.e HtF, ac ystyried datblygu gwybodaeth debyg lle nad yw hon yn bodoli	Ebrill 2001	Impact/ Springboard
	2ch	Ystyried datblygu cymhwyster i fodloni anghenion twristiaeth busnes	Medi 2001	Gwasanaeth CyflogiITO/ QCA/FEFCW/ HEFCW/CETW
3	3a	Ystyried cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar gyfleoedd i ddysgu o bell	Parhaus	Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Impact
	3b	Ystyried targedu adnoddau at gynlluniau cydweithredol yn enwedig mewn perthynas â bylchau/prinder sgiliau	Parhaus	Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Impact/ CETW
	3c	Ystyried hyblygrwydd pellach o ran llunio a darparu hyfforddiant	Parhaus	Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/ Impact/CETW
	3ch	Ystyried datblygu 'asiantaeth' i ddarparu gweithwyr llanw ar gyfer micro fusnesau	Ebrill 2001	CETW/Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Impact/ Cyflogwr

Rhif y Thema	Rhif Arg.	Cam Gweithredu	Amserlen	Prif Bartneriaid
	3d	Datblygu busnesau er mwyn gwneud asesiadau gwell yn seiliedig	Parhaus	CETW/Impact/ Cyflogwr
	3dd	Dulliau gwell o hyrwyddo llwybrau dyrchafiad i'r rheini sydd yn y sector eisoes	Parhaus	Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Impact/ CETW
4	4a	Ystyried datblygu cymhwyster ar gyfer gweithredwyr unigol	Ebrill 2001	CETW/Impact/ Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru
5	5a	Ystyried targedu'r gweithlu posibl (ddim yn draddodiadol)	Parhaus	CETW/ Gwasanaeth Cyflogi/ Springboard/ EBPs
	5b	Ystyried datblygu rhaglen fentora newydd ar gyfer ymgeiswyr newydd	Ebrill 2001	Impact/ Springboard/ EBPs
	5c	Gwneud yn fawr o'r cyfleoedd sy'n deillio o strwythur newydd y Cyswllt Busnes ac Addysg	Ebrill 2001	CETW/Impact/ Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/EBPs

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn un mewn cyfres a gomisiynwyd gan Fforwm Ymchwil Cymru i Sgiliau'r Dyfodol. Bwriad cyffredinol y prosiect yw ymestyn a chwblhau'r gwaith a gychwynnwyd gan brosiect gwreiddiol Sgiliau'r Dyfodol Cymru, oedd yn defnyddio data arolygon a rhagolygon i ragweld beth oedd yr anghenion cyffredinol o ran sgiliau pellach yng Nghymru. Mae'r prosiect presennol yn ceisio ychwanegu gwybodaeth am anghenion galwedigaethol o ran sgiliau'r dyfodol o fewn rhai o'r prif sectorau yng Nghymru.

1.2 Mae busnesau a gweithwyr ym mhob un o'r sectorau a astudiwyd wedi mwynhau llwyddiant aruthrol; dyna pam y daeth y sectorau hyn yn bwysig i Gymru. Ni ddylai'r sylw a roddwn i sgiliau cyfredol daflu cwmwl dros y cyraeddiadau hyn na phenderfyniad pawb dan sylw i gwrdd â'r her sydd o'u blaenau.

1.3 Yn cyd-fynd â phob un o'r adroddiadau unigol ar y gwahanol sectorau mae adroddiad cyffredinol ar faterion yn ymwneud â sgiliau rheoli a thechnoleg gwybodaeth. Mae hwn yn adolygu'r sefyllfa ym mhob sector ac yn tynnu sylw at themâu a goblygiadau cyffredinol.

1.4 Wrth ymgymryd â'r gwaith ymchwil hwn, daeth yn amlwg i lawer iawn gael ei wneud o fewn y sector ar lefel y DU, ac i lawer iawn ddigwydd ar y lefel genedlaethol o fewn Cymru. Deil llawer o hyn i fod. Rhestrir yn **Atodiad A** yr astudiaethau eraill a ddefnyddiwyd i ddibenion yr ymchwil hon. Ond mae amryw o'r pynciau o godwyd yn yr adroddiadau hyn yn dal mewn bodolaeth, sy'n awgrymu eu bod wedi gwreiddio drwy'r diwydiant, ac y bydd gofyn eu chwynnu dros gyfnod o amser.

Dull

1.5 Gwaith ymchwil wrth ddesg a thrafodaethau dros y ffôn yn bennaf oedd cyfnod cyntaf yr astudiaeth. Cafwyd budd o gyfweliadau gyda Catrin James o'r Hospitality Training Foundation (HtF), Chris Osbourne o'r HtF/Springboard, ac yntau'n gyflogwr, a Diana James o Fwrdd Croeso Cymru wrth sefydlu cyd-destun y sector hamdden, twristiaeth a chroesawiaeth.

1.6 Yn ystod yr ail gyfnod, cynhaliwyd rhagor o gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr o'r sector, tra bod astudiaethau achos yn ehangu a dwysáu dadansoddi'r pynciau sgiliau galwedigaethol.

1.7 Nid cynnal ymchwil brimaidd feintiol oedd y nod, ond ymgynghori â chynrychiolwyr y sector er mwyn nodi materion yn ymwneud â sgiliau, y camau sy'n cael eu dilyn mewn ymateb i'r rhain, a'r posibilrwydd o weithredu ymhellach neu ddatblygu polisi. Dylai'r adroddiadau terfynol felly ddarparu cyflwyniad clir i'r sector, darlun o'r materion sy'n wynebu'r sector, a chyfeirio at gamau gweithredu cyfredol a phosibl.

2. Y Sector Twristiaeth

Diffiniad

2.1 Mae natur gymhleth ac amrywiol twristiaeth, croesawiaeth a hamdden yn golygu ei bod yn fwy priodol i'w hystyried fel 'maes gweithgarwch economaidd yn hytrach na set o alwedigaethau ar wahân'. Mae hyn yn creu problem wrth ddadansoddi data a gyhoeddwyd, gan fod y sector yn heterogenaidd iawn ac nad yw'n cael ei ddiffinio gan yr un o godau'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol. Gwelir y codau sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn yn **Atodiad B.**

2.2 At ddibenion y gwaith ymchwil hwn, roedd yn bwysig canolbwyntio ar dwristiaeth fel sbardun economaidd allweddol i Gymru, gyda chefnogaeth rhai agweddau o groesawiaeth a hamdden. Mae Strategaeth Bwrdd Croeso Cymru 'Cyflawni ein Potensial: Strategaeth Twristiaeth i Gymru', yn pwysleisio dibyniaeth Cymru ar dwristiaeth, 'bron yn fwy nag unrhyw wlad arall yn Ewrop'. Er i Gymru lwyddo i greu swyddi a lleihau diweithdra dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, nid yw eto wedi llwyddo i gynyddu Cynnyrch Mewnwladol Crynswth fesul pen o'i phoblogaeth. Gallai datblygu'r sector twristiaeth fod yn rhan o'r hyn sydd ei angen i ddatrys y broblem hon.

2.3 Y Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol sy'n cwmpasu'r sector yw:

- Teithio a Thwristiaeth;
- Y Sefydliad Hyfforddiant Croesawiaeth (HtF);
- SPRITO (Chwaraeon a Hamdden);
- Etifeddiaeth Ddiwylliannol;
- Corff Hyfforddi Diwydiant y Sector Digwyddiadau (ESITO).

Proffil o'r Sector

2.4 Gellir rhannu'r sector yn wyth is-sector fel a ganlyn:

- Gwestai;
- Gwersylla / Llety cyfnod byr;
- Bwytai;
- Bariau;
- Siopau Gwyliau;
- Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd;
- Chwaraeon;
- Eraill.

Segmentiad

2.5 Rhennir y sector twristiaeth yng Nghymru yn fras i'r meysydd gweithgarwch defnyddwyr canlynol:

- Gwyliau - 69%;
- Ymweliadau - 21%;
- Busnes - 7%;
- Eraill - 3%.

Nodweddion y Sector

Sector Twristiaeth y DU - Ffeithiau a Ffigurau

2.6 Dyma'r pwyntiau allweddol i'w nodi:

- cyflogir 1,533,100 o bobl yn sector Twristiaeth y DU;
- cyflogir 7.2% o weithlu'r DU mewn gweithgareddau sy'n berthnasol i dwristiaeth;
- cyflogir 55.8% o weithwyr gan fusnesau sydd â 25 neu lai o weithwyr;
- mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn £11,448 y pen, sy'n isel iawn o'i gymharu â sectorau eraill;
- mae twristiaeth busnes yn cyfrif am 25% o gyfanswm y twristiaeth i mewn.

Y Diwydiant Twristiaeth o fewn Cymru

2.7 Codir nodweddion canlynol y Sector Twristiaeth yng Nghymru o adroddiad DTZ Pieda 'Cyflogaeth a Hyfforddiant yn y Sector Twristiaeth yng Nghymru', a ymgymerwyd ar ran Bwrdd Croeso Cymru ym 1998, ac o 'Cyflawni ein Potensial: Strategaeth Twristiaeth i Gymru' gan y Bwrdd Croeso ei hunan.

2.8 Dyma'r pwyntiau allweddol i'w nodi:

- mae'r sector yn cynhyrchu gwerth £2 biliwn o wariant ymwelwyr uniongyrchol;
- cyflogir 7.4% o'r gweithlu Cymreig yn uniongyrchol gan weithgareddau sy'n berthnasol i dwristiaeth (10% o gynnwys cyflogaeth anuniongyrchol), sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd y DU;
- cyflogir 66,700 o bobl o fewn y Sector Twristiaeth Cymreig;
- cyflogir 72% o fewn y sector croesawiaeth;
- cyflogir 64.7% o'r gweithwyr gan fusnesau sydd â 25 neu lai o weithwyr, sydd yn uwch na chyfartaledd y DU;
- maint cyfartalog gwestai/ tai aros yw chwe ystafell yn unig, a dim ond 6% o westai sydd â rhagor na 40 o ystafelloedd;
- mae dros 60% o atyniadau twristaidd yn denu llai na 500,000 o ymwelwyr bob blwyddyn;
- mae twristiaeth yn cyfrif am 7% o'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth, ac mae hyn yn debygol o gynyddu i 8% erbyn 2010;
- mae'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn £9,442 y pen (82.2% o gyfran y DU);
- mae angen mesur twristiaeth busnes o fewn Cymru.

Lleoliad a Chyflogaeth

2.9 Amcangyfrifir fod ar y gorau 7,500 o fusnesau perthnasol i dwristiaeth yng Nghymru[1]. Mae 50% o'r busnesau hyn y tu allan i strwythurau diwydiant ffurfiol, e.e. y Byrddau Croeso Rhanbarthol. Anodd felly yw eu canfod i ddechrau, ac yna, ar ôl eu canfod, anodd yw eu targedu a dylanwadu arnynt.

2.10 Cyflogir tua 66,700 o bobl yn uniongyrchol gan y sector twristiaeth, ac o ystyried cyflogaeth anuniongyrchol ac anogedig, mae'n codi i oddeutu 100,000 o swyddi cyfwerth â llawn amser. Mae hyn gyfwerth â thua un swydd allan o bob naw o fewn yr economi Gymreig.

2.11 Mae lleoliad busnesau perthnasol i Dwristiaeth wedi ei wasgaru ledled Cymru, ond ceir tair rhanbarth, sef Gogledd Cymru, Gorllewin Cymru a De-Ddwyrain Cymru ar y cyd yn cyfrif am 71% o dwristiaeth.

2.12 Dengys **Ffigwr 2.1** fod 42% o gyflogaeth sy'n benodol i dwristiaeth wedi ei leoli yn Ne Cymru, 29% yng Ngogledd Cymru, 24% yng Ngorllewin Cymru a 5% yn unig yng Nghanolbarth Cymru.

[1]Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r Fforwm Twristiaeth a Hyfforddiant: Stevens and Associates.

Ffigwr 2.1: Cyflogaeth Twristiaeth



2.13 Gallai'r ganran gymharol isel o gyflogaeth yng Nghanolbarth Cymru fod o ganlyniad i'r ganran uchel o fân fusnesau yn yr ardal, nad ydynt yn ymddangos ar unrhyw ystadegau a/neu fod rhai busnesau twristiaeth yn cynrychioli rhan o fusnesau eraill e.e. amaethyddiaeth. O ganlyniad i hyn, gallai'r ffigwr yma dan-gynrychioli'r wir sefyllfa.

2.14 Amcangyfrifir y bydd dosraniad rhanbarthol cyflogaeth ym maes twristiaeth, hamdden a chroesawiaeth yn cadw'n gyson dros y ddeng mlynedd nesaf (**Tabl 2.1** isod).

Tabl 2.1: Lleoliad Gweithwyr twristiaeth, Hamdden a Chroesawiaeth (2000, a rhagolygon ar gyfer 2010)

Blwyddyn	Rhanbarthau Cymru (%)			
	De Orllewin	Canolbarth	Gorllewin	Gogledd
2000	41%	11%	21%	27%
2010	41%	11%	21%	27%

Ffynhonnell: Business Strategies Cyf

2.15 Ar y cyfan, mae gan y diwydiant twristiaeth ledled Cymru gyfran helaeth iawn o fân fusnesau (y rhai hynny sy'n cyflogi 10 neu lai o bobl). Mae'r gyfran yma o 85% yn uwch nag ar gyfer y DU gyfan (74%), a'r economi Gymreig yn ei chyfanrwydd (75%).

2.16 Mae rhagolygon diweddar gan Business Strategies Cyfyngedig yn rhoi amcangyfrif o'r bras broffil galwedigaethol ar gyfer y sector hwn ac eraill a astudiwyd gan York Consulting. Mae **Ffigwr 2.2**. isod yn cymharu'r proffiliau. O'i gymharu â sectorau eraill yr astudiaeth, mae'r sector twristiaeth, hamdden a chroesawiaeth yn cyflogi cyfrannau uwch o reolwyr a staff gwasanaethau personol. Ceir cymariaethau pellach rhwng y sectorau yn **Atodiad Ch**.

Ffigwr 2.2: Proffiliau Galwedigaethol y Sectorau, 2000



Ffynhonnell: BSL - Rhagolygon sectorau Sgiliau Dyfodol Cymru, 2000.

[2]*Arolwg Tymor Byr AES.*

Effaith y Tymhorau

2.17 Mae tystiolaeth[2] ar gael sy'n awgrymu y gall natur dymhorol twristiaeth gynyddu cyflogaeth y diwydiant rhwng 10% ac 11% o Fehefin i Ragfyr.

2.18 Mae'r mwyafrif o'r newid yn digwydd mewn tri o'r is-feysydd canlynol:

- gwestai a chyfleusterau lletya eraill - cynnydd o bron 50%;
- bwytai - cynnydd o 15%;
- bariau - cynnydd o 10%.

2.19 Ond wedyn, dros y blynyddoedd diweddar, gwelwyd lleihad yn y materion sy'n ymwneud ag effaith y tymhorau mewn ardaloedd trefol megis Caerdydd.

2.20 Mae adran Twristiaeth Busnes y farchnad yn cynhyrchu lefelau sylweddol o dwristiaeth drwy gydol y flwyddyn, ond yr hyn sy'n bwysig yw y gall godi galw yn ystod dau gyfnod allweddol sy'n dawel - Ionawr hyd Fawrth, a Hydref hyd Ragfyr.

Y Gweithlu

2.21 Mae'r sector yn ei gyfanrwydd yn creu model cymhleth o gyflogaeth, gyda'i gymysgedd o waith llawn amser, rhan amser, dros dro, parhaol, cyflogedig a digyflog. Ar ben hyn, mae parodrwydd y wybodaeth am gyflogaeth o fewn yr is-sectorau twristiaeth, croesawiaeth a hamdden yng Nghymru yn amrywio'n arw, a cheir y broblem o orfod ail a thrydydd gyfrif, gan y cynhwysir yr un meysydd gwaith gan ragor nag un is-sector.

2.22 Yn gyffredinol, delwedd o gyflogau isel a chyfleoedd sgiliau isel sydd i'r sector. Ond fe geir meysydd allweddol lle nad yw hyn yn wir, megis amgueddfeydd ac orielau, llyfrgelloedd a rhai meysydd arbennig o weithgareddau twristiaeth busnes, megis trefnu cynadleddau.

2.23 Bydd llawer o nodweddion gweithlu'r sector yn effeithio ar natur y pynciau'n ymwneud â sgiliau, gan gynnwys:

- mae tua 100,000[3] o weithwyr yng Nghymru yn uniongyrchol ddibynnol ar Dwristiaeth; 66,700 cyfwerth â llawn amser uniongyrchol, 10,900 cyfwerth â llawn amser anuniongyrchol a 22,400 cyfwerth â llawn amser anogedig;
- menywod yw 61% o'r rhai a gyflogir gan dwristiaeth;
- cyflogaeth ran amser yw 51%, o'i gymharu â 28% dros yr economi Gymreig yn ei chyfanrwydd;
- lleolir 74% o'r gweithwyr rhan amser hyn yn yr is-sectorau gwestai, bariau a bwytai;
- ceir amrediad eang o oedrannau, yn enwedig ymhlith y staff craidd.

2.24 I ymhelaethu ar Ffigwr 2.2 uchod, prif alwedigaethau'r sector yw:

- rheolwyr gwestai/ lletyau;
- rheolwyr bwytai/ arlwyo;
- tafarnwyr/ ceidwaid clybiau;
- rheolwyr adloniant/ chwaraeon;

[3]*Cyflogaeth a Hyfforddiant yn y Sector Twristiaeth yng Nghymru: DTZ Pieda.*

- rheolwyr siopau gwyliau;
- athletwyr proffesiynol, swyddogion chwaraeon;
- croesawyr;
- cogyddion;
- gweinyddwyr/ gweinyddesau;
- staff bariau;
- ceidwaid tai;
- hebryngwyr teithio/ awyrennau;
- glanhawyr, staff domestig;
- staff annomestig;
- porthorion gwestai;
- porthorion a chynorthwywyr cegin;
- cynorthwywyr arlwyo.

Ffynonellau Newid a Rhagolygon ar gyfer y Dyfodol

2.25 Ar hyn o bryd, mae'r Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol allweddol wrthi'n datblygu rhagolygon cyflogaeth penodol i Gymru. Ond eisioes cynhyrchwyd rhagolygon twf mewn cyflogaeth gan Business Strategies Cyfyngedig, ac fe'i gwelir er mwyn eu cymharu â secorau eraill yn **Nhabl 2.2** isod.

Tabl 2.2: Rhagolygon Twf Poblogaeth 2000 - 2010

	2000	2010	Newid%
Twristiaeth	90,150	109,840	+ 22%
Awyrofod	6,110	4,870	- 20%
Bwyd	20,600	23,410	+ 14%
Electroneg	30,250	30,490	+ 1%
Gwasanaethau Busnes	57,320	63,540	+ 11%

2.26 Yn eu hadroddiad amcangyfrif DTZ Pieda oedd y deuai rhwng 10,000 ac 20,000 o swyddi newydd erbyn 2003, ac ymddengys fod hyn yn unol â rhagolwg BSL, sy'n rhagfynegi rhagor na 19,690 o swyddi o'r newydd erbyn y flwyddyn 2010. Mae'r twf yma yn hynod o uchel, sydd heb ei well o fewn yr un sector arall.

2.27 Ond eto, mae adroddiad DTZ Pieda hefyd yn rhagfynegi na fydd twf cyflogaeth twristiaeth yng Nghymru lawn mor gyflym â'r DU yn ei chyfanrwydd. Dengys rhagolwg BSL mai 1.03 yw cyniferydd cyflogaeth y sector twristiaeth yn 2000, sy'n dweud fod cyflogaeth tua'r un lefel â'r DU, ond fe fydd erbyn 2010 yn 0.98, sef fymryn yn llai.

2.28 Rhennir y twf hwn a awgrymir rhwng yr is-sectorau fel a ganlyn:

- **gwestai** - twf cymhedrol;
- **lletyau eraill** - twf isel;
- **bwytai a bariau** - twf uchel;
- **siopau gwyliau** - twf cymhedrol;
- **lyfrgelloedd** - twf isel;
- **amgueddfeydd, cyfleusterau chwaraeon ac atyniadau** - twf uchel.

2.29 Disgwylir graddfeydd cynnydd uwch na'r cyfartaledd mewn ardaloedd gwledig ac yn Ne Cymru yn ei gyfanrwydd.

2.30 Mae'r prif newidiadau a fydd yn effeithio ar ddyfodol twristiaeth fel a ganlyn, sydd bob un ohonynt yn awgrymu cynnydd ar y cyfan o fewn y sector dros y 5 - 10 mlynedd nesaf:

- mae'r sector yn profi **ehangu tymor hir** mewn twristiaeth busnes, y farchnad ymwelwyr dyddiol a'r farchnad wyliau byr/ail wyliau;
- **defnyddwyr mwy ymwybodol, penderfynol a chefnog** gyda mwy o amser i hamddena nag yn y gorffennol;
- golygodd **cynnydd mewn symudedd** ragor o ryddid i ddefnyddwyr wrth ddewis cyrchfannau busnes a hamdden;
- **creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru**, sydd â'r ddyletswydd o godi proffil Cymru, a thrwy hynny gynyddu'r galw gan ymwelwyr yn gyffredinol yn ogystal â thwristiaeth busnes;
- gwell **rhwydwaith ffyrdd** i agor mynediad i rai ardaloedd a ystyriwyd gynt yn rhy anghysbell/ anhygyrch;
- canfod nifer o **fannau twf twristiaeth** - a'r cynnydd dilynol yn y galw am sgiliau mewn rhai meysydd;
- ledled llawer o Gymru bydd **hyd y tymor twristiaeth** yn ymestyn; mae rhai ardaloedd trefol eisoes yn profi tymor drwy gydol y flwyddyn.

2.31 Ceir nifer o ffactorau y dylid eu hystyried, ac a allai gael effaith negyddol ar dwf y sector:

- **cryfder presennol y bunt**, sy'n amharu ar y nifer o dwristiaid tramor, rhai hamdden yn ogystal â busnes, ac yn gwneud gwyliau tramor yn rhatach i drigolion y DU;
- **y tywydd gwael** parhaus, sydd, yn ôl y sôn, eisoes yn effeithio ar y marchnadoedd tramor a gartref, ond sydd, gobeithio, yn ffactor tymor byr;
- **byrder y tymor twristiaeth** - sy'n gofyn am ffynhonnell lafur hyblyg iawn mewn rhai ardaloedd;
- **dirywiad** ardaloedd yr arfordir - mae angen i fusnesau fod yn ddyfeisgar wrth ddenu twristiaid, ac mae angen i'r llafur fod yn symudol er mwyn cyrraedd lle bo'r galw;
- angen parhaus am **arbenigaeth ac arallgyfeirio** - sydd yn ei dro yn gofyn am sgiliau arbenigol, e.e. twristiaeth seiliedig ar weithgareddau a'r amgylchedd;
- cystadleuaeth o du'r **Iwerddon**, - mae ffyniant yr economi Wyddelig wedi arwain at ymdrechion i fewnforio gweithwyr o dir mawr y DU a Chymru'n arbennig.

2.32 Hefyd, ceir nifer o bynciau sy'n effeithio ar y sector, ond nid yw eu heffaith yn amlwg hyd yn hyn:

- effaith y **lleiafswm cyflog a Chyfeireb Amser Gweithio yr UE**. Yn ôl y sôn, mae'n bryder arbennig fod amryw o staff, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig, yn derbyn eu llety fel rhan o gyfanswm eu pecyn swydd a dylid ei ystyried fel rhan o'r gydnabyddiaeth;
- yr ymateb i'r gystadleuaeth gynyddol yn sgil **y defnydd helaethach o oriau gwaith rhan amser a hyblyg.** Yn arbennig, mae'r rhan fwyaf o'r sector tafarndai/ bariau bellach ym meddiant nifer fechan o siarcod, o ganlyniad i'r cyfuno a'r caffael a gododd oherwydd y gystadleuaeth

fewnol o adran fwytai'r sector. Bydd raid i'r busnesau twristiaeth annibynnol gynnig telerau ac amodau cystadleuol os ydynt am lwyddo i ddenu a chadw staff yn yr hinsawdd hon;

- cyflwyno **rheoliadau a chanllawiau llymach** ar gyfer pob sector o'r diwydiant bwyd wrth drin, paratoi, storio a gweini bwyd. Arweiniodd pryder y cyhoedd am safon bwyd at greu'r Asiantaeth Safonau Bwyd annibynnol; disgwylir i fwytai a gwestai gyfrannu at y gost o'i chynnal.

Newid Daearyddol

2.33 Yng Nghanolbarth Cymru:

- ceir dirywiad parhaus mewn twristiaeth draddodiadol, ac mae angen i fusnesau chwilio am ddulliau o arallgyfeirio, sy'n gofyn am well sgiliau rheoli a mentro;
- profodd yr ardal ddirywiad yn y nifer o brif wyliau hir domestig, ond bu cynnydd yn y nifer o wyliau hir ychwanegol. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn ail wyliau, ac o'r herwydd yn llai proffidiol;
- cafwyd lleihad yn ei gyfran o wyliau byr domestig a'r fasnach dramor, yn wahanol i'r patrwm cenedlaethol.

2.34 Yn Ne Cymru:

- ceir economi sydd ymhlith y cyflymaf ei thwf yn y DU;
- fe fu ehangu o fewn ac o gwmpas Caerdydd, ac mae'n parhau felly, fydd yn golygu rhagor o alw am sgiliau mewn marchnad lafur sydd wastad yn tynhau;
- mae prif botensial twf y farchnad ddomestig i'w weld yn y farchnad wyliau byr ac mewn twristiaeth sy'n berthnasol i fusnes;
- rhaid hefyd roi blaenoriaeth i'r farchnad dramor ar gyfer twristiaeth gyffredinol yn ogystal â theithio busnes;
- ceir mwy a mwy o gystadleuaeth o gyfeiriad Bryste/ Sir Gaerloyw, un o'r economïau sydd gyflymaf ei thwf yn y DU;
- mae 19% o dwristiaeth yn berthnasol i fusnes, o'i gymharu â 7% ar gyfer Cymru gyfan;
- bydd datblygu Bae Caerdydd a Stadiwm y Mileniwm er enghraifft yn creu adrannau newydd oddi mewn i'r farchnad.

2.35 Yng Ngogledd Cymru:

- gwestai ac arlwyo yw'r trydydd sector o ran maint yn nhermau cyflogaeth;
- rhagwelir[4] cynnydd mewn cyflogaeth o 24,000 i 27,000 erbyn 2001, sydd gyfwerth â chynnydd o 13% o'i gymharu â 10.66% ar gyfer Cymru a 11.43% ar gyfer y DU;
- mae angen dibynnu llai ar y farchnad wyliau hir, sydd yn ôl pob arwydd yn dirywio, er mwyn canolbwyntio ar wyliau byr, yn enwedig y rhai hynny sydd ag arlliw o weithgareddau, yn ogystal â'r farchnad dramor;
- mae'r sector yn pwyso'n drwm ar y sector carafanau, sy'n cynnal y farchnad wyliau hir, gyda lletya â llai o wasanaethau i gynnal gwyliau byr a'r farchnad dramor;
- mae angen atgyfnerthu'r farchnad tripiau dyddiol a thros nos, lle gwelwyd twf rhagorol yn ystod y blynyddoedd diweddar.

2.36 Mae **Tabl 2.3** yn cynnig crynodeb o ddadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a pheryglon sy'n wynebu'r sector.

Tabl 2.3: Crynodeb o Ddadansoddiad 'SWOT' y Sector

Cryfderau	Gwendidau
Cymru ei hunan fel adnodd hawdd i'w farchnata	Diffyg proffil o'r 'ffordd Gymreig o fyw'
Partneriaethau effeithiol i gefnogi datblygiad y sector	Diffyg proffil a statws i dwristiaeth fel sbardun i'r economi
Y gallu i addasu a newid	Sector twristiaeth busnes bychan
Disgwylir twf yn y tymor canolig	Swmp o dwristiaeth nad yw'n cynnig gwerth ychwanegol
Cefnogaeth strwythuredig gref i hyfforddiant e.e. Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth i Gymru	Byrder y tymor twristiaeth
Cefnogaeth alwedigaethol gref i hyfforddiant e.e. Impact	Busnesau bychain yn llai tebygol o gynnig adnoddau hyfforddiant/ datblygiad gyrfa
Datblygiad parhaus Springboard	Diffyg bri i'r sector a'i swyddi
	Ychydig o fyfyrwyr yn byw yma
	Diffyg ymwybyddiaeth o hyfforddiant/ datblygiad Adnoddau Dynol ac adnoddau
	Diffyg eglurdeb am strwythurau'r diwydiant
	Diffyg sgiliau rheoli
Cyfleoedd	**Peryglon**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hybu'r ffordd Gymreig o fyw	Haws teithio y tu hwnt i Gymru
Cyfle i elwa ar statws Amcan 1 mewn rhai ardaloedd	Defnyddwyr yn disgwyl rhagor am eu harian
Twristiaeth Domestig ar gynnydd	Y farchnad lafur yn tynhau
Cynnydd mewn llewyrch ac amser hamdden defnyddwyr	Trefi gwyliau glan-y-môr yn profi dirywiad tymor hir
Haws teithio o gwmpas Cymru	Colli'r bobl ifanc sy'n mudo oherwydd yr economi
Defnyddwyr yn dod yn fwy craff	Lefel isel o sgiliau ar y cyfan y gellir eu trosglwyddo i sectorau eraill
Ymestyn y tymor twristiaeth mewn rhai ardaloedd	Tywydd gwael parhaus pan fo'r tymor ar ei brysuraf
Mannau twf e.e. Caerdydd	
Mannau gwag yn ystod yr adegau tawel	
Natur twristiaeth yn datblygu - galw am amrywiaeth o sgiliau	
Lle gwelwyd dirywiad, mae gofyn edrych ar y meysydd arbenigol e.e. gweithgareddau awyr agored	
Cysylltiadau â mentrau adfywio	

[4] *DTZ Pieda: 'Patrymau Cyflogaeth y Dyfodol yn yr Ardal CELTEC 1997 - 2001.'*

3. Materion Sgiliau'r Sector

Prif Sgiliau Galwedigaethol o fewn y Sector

3.1 Mae ehangder y sgiliau a'r cyrsiau galwedigaethol sydd ar gael yn sylweddol, ac yn cynnwys:- cyrsiau gradd ac HND mewn Astudiaethau Twristiaeth, Hamdden a Chwaraeon, cyrsiau addysg uwch mewn arlwyo a rheoli sefydliadau, cyrsiau addysg bellach ar westai ac arlwyo, tystysgrifau a diplomâu proffesiynol HCIMA, cymwysterau The British Institute of Inn Keeping; NVQ a GNVQ. Gwelir rhestr lawn o'r cymwysterau yn **Atodiad C**.

3.2 Mae adroddiad archwiliad diweddaraf y Cyngor Cyllido Cymreig sy'n sôn am gyrsiau Addysg Bellach sy'n berthnasol i dwristiaeth, hamdden a chroesawiaeth, yn crybwyll 22 o sefydliadau sy'n cynnig cyfanswm o 803 o gyrsiau sy'n berthnasol i dwristiaeth, a chyfanswm o 5,188[5] o fyfyrwyr yn ymuno[6]. Gallai hyn awgrymu dyblygu datblygiad a darparu cyrsiau fel ei gilydd, ond anodd yw cadarnhau hyn o'r data sydd ar gael.

3.3 Ymddengys fod cymhlethdod y rhwydwaith hyfforddi'n drysu cyflogwyr yn ogystal â darpar fyfyrwyr.

3.4 Mae 52% o'r cyrsiau (420) yn arwain at GNVQ neu NVQ, 16% at gymwysterau BTEC, 2% at gymwysterau proffesiynol a'r gweddill at 'fathau eraill o gymwysterau' (28%).

3.5 Mae **Tabl 3.1** yn dangos amrediad y cymwysterau sydd gan y gweithlu presennol, ac yn amlygu'r ffaith fod:

- cymwysterau ar y cyfan yn llawer is na'r hyn ydynt i weithlu Cymru yn gyffredinol;
- llawer llai gyda chymwysterau Lefel 4 a 5;
- lawer mwy yn meddu ar Lefel 3 neu lai;
- mae bron un o bob pump o weithwyr yn y sector heb unrhyw gymwysterau.

Tabl 3.1: Amcangyfrif o'r Lefelau Cymwysterau Uchaf yn y Sector Hamdden, Twristiaeth a Chroesawiaeth

	%	% ar gyfer yr holl sectorau
Gradd Uwch/NVQ 5	1.4	4.6
Gradd Arall/NVQ 4	5.7	18.7
2 lefel A+/NVQ3	15.5	9.5
5 TGAU/NVQ2	33.3	29.9
Cymwysterau Is/NVQ1	25.3	23.2
Dim Cymwysterau	18.0	12.5

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Arolwg y Gweithlu

Gofynion Sgiliau'r Dyfodol

3.6 Bydd y Rhagolygon Sgiliau, sydd ar hyn o bryd ar y gweill gan y prif Gyrff Hyfforddi Cenedlaethol o fewn y sector Twristiaeth, yn gallu amcangyfrif galw'r dyfodol ym mhob is-sector.

3.7 Mae'r ddogfennaeth a'r ymgynghoriad presennol yn amlygu'r pwyntiau canlynol fel meysydd galw yn y dyfodol:

- y swyddi sydd fwyaf anodd i'w llenwi yw rhai cogyddion[7], ac yna staff bariau, gweinyddwyr/ gweinyddesau bwyd a chynorthwywyr arlwyo;
- yn ôl y sôn, ymddengys fod prinder hefyd o staff cadw tŷ;
- cododd y defnydd cynyddol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yr angen i hyfforddi rhagor o unigolion yn y sgiliau hyn. Fe ddaw'r Rhyngrwyd â newidiadau chwim yn ei sgîl i systemau gwybodaeth ac archebu, a law yn llaw â chyfryngau eraill, bydd yn cynnig cyfleoedd cyffrous i farchnata a hyrwyddo, yn ogystal â rhoi gwybodaeth i ymwelwyr;
- mae cyflogwyr yn gosod mwy a mwy o bwyslais ar sgiliau cyffredinol, sef cyfathrebu, blaengarwch, gwasanaeth i'r cwsmer a'r awydd i ddysgu;
- bydd y gystadleuaeth gynyddol ymhlith y marchnadoedd domestig a rhyngwladol yn golygu mwy o alw am sgiliau rheoli a mentro;
- bydd yr angen am dwf mewn busnes tramor yn golygu y bydd angen gwell sgiliau ieithyddol;
- bydd y galw am weithwyr newydd yn ymledu ar draws Cymru, gyda rhai ardaloedd arbennig, megis Caerdydd, yn profi chwyldro.

Sgiliau Galwedigaethol - Cyflenwi'r Dyfodol

3.8 Yn y gorffennol, defnyddiodd y sector yn ei gyfanrwydd nifer fawr o weithwyr rhan amser a thymhorol, llawer ohonynt yn fyfyrwyr. Bu'n fwyfwy anodd i ganfod y math hwn o lafur, yn rhannol oherwydd gwell cyflogau mewn swyddi cyffelyb, a hefyd oherwydd natur y cyrsiau yr oedd myfyrwyr yn eu dilyn, lle roedd mwy o bwyslais ar waith cwrs drwy gydol y flwyddyn academaidd.

3.9 Hefyd, gwelir llai o fenywod yn dychwelyd i weithio, lle'n draddodiadol y buont yn rhan allweddol o'r farchnad gyflogaeth ran amser.

3.10 Bu gostyngiad o 40% yn y nifer o fyfyrwyr sy'n ymuno â chyrsiau perthnasol i Dwristiaeth (gan gynnwys croesawiaeth a hamdden) yn ystod 1996/ 1997 - 1998/ 1999[8], fel y dengys **Ffigwr 3.1.** Golygodd hyn wir leihad yn nifer y myfyrwyr ar y cyrsiau hyn o 8,632 ym 1996/ 97 i lai na 5,188 dair blynedd yn ddiweddarach. Felly, mae llai o bobl sydd wedi cymhwyso a'u haddysgu mewn twristiaeth yn gadael y system. O safbwynt y cyflogwr, mae hyn yn ychwanegu at y prinder sgiliau sy'n bodoli yn eu maes.

3.11 Cymhlethwyd hyn hefyd gan y ffaith fod amryw o'r rhai hynny sy'n ymuno â chyrsiau perthnasol yn dewis cyrsiau hamdden, chwaraeon ac adloniant yn hytrach na'r cyrsiau twristiaeth prif ffrwd. Golyga hyn fod myfyrwyr yn ymuno â sectorau eraill sy'n ymddangos yn fwy deniadol, wrth gwblhau eu cyrsiau.

Ffigwr 3.1: Nifer o Fyfyrwyr a Ymunodd Fesul Maes ym 1996,1997 a 1998



[5]*Gwybodaeth gan FEFCW*
[6]*Mae'n amhosibl datgan yn union sawl myfyriwr sydd wedi ymuno â rhaglenni Addysg Uwch perthnasol i dwristiaeth.*
[7]*Arolwg Cyflogwyr 1999 ar gyfer y sector croesawiaeth*
[8]*Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r Fforwm Twristiaeth a Hyfforddi: Stevens and Associates*

Pieda i'r casgliad fod darpariaeth y sector Addysg Bellach ac Uwch ar gyfer cymwysterau ffurfiol yn gynhwysfawr ac yn ôl pob tebyg yn ddigonol yn nhermau'r niferoedd sy'n ymgymryd â hi bob blwyddyn yng Nghymru gyfan.

3.13 Ond mae amryw o'r bobl ifanc hynny sy'n cofrestru a chwblhau cyrsiau sy'n ymwneud â thwristiaeth, croesawiaeth a hamdden mewn gwirionedd yn ymuno â galwedigaethau eraill sy'n ymddangos yn fwy deniadol ac yn gallu elwa ar y sgiliau a ddysgwyd. Hefyd collir pobl ifanc o Gymru sy'n mudo oherwydd yr economi.

3.14 Mewn rhai ardaloedd daearyddol yng Nghymru ceir llawer iawn o golegau Addysg Uwch, ac i raddau llai golegau Addysg Bellach. Oherwydd hyn mae'r ddarpariaeth yn annigonol mewn rhai ardaloedd, yn arbennig y Canolbarth.

3.15 Dengys **Tabl 3.2** ddosraniad y ddarpariaeth Addysg Bellach o fewn y rhanbarthau sy'n berthnasol i dwristiaeth.

Tabl 3.2: Dosraniad Darpariaeth Addysg Bellach Perthnasol i Dwristiaeth

	Rhanbarthau Cymru (%)			
	De Ddwyrain	Canolbarth	Gorllewin	Gogledd
Canran nodau cymwysterau myfyrwyr	27%	9%	38%	26%

Ffynhonell: Cofnodin Myfyrwyr a Chofnodion Myfyrwyr HESA 1997/98

3.16 Mae'r wybodaeth sydd ar gael gan ddau o'r pedwar Cyngor Hyfforddiant a Menter yn awgrymu fod canran y lleoedd Prentisiaeth Fodern a Phrentisiaeth Genedlaethol mewn meysydd galwedigaethol perthnasol i dwristiaeth yn ddigonol yn yr ardaloedd hyn, ac yn adlewyrchu canran y gweithlu yn y sector. Mae gan Ganolbarth a De Ddwyrain Cymru fel ei gilydd 8% o'u hyfforddeion PF a PG mewn twristiaeth a'r meysydd perthnasol, ac mae hyn yn cynnwys croesawiaeth a hamdden.

3.17 Mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth yn amlygu'r ffaith fod arweiniad academaidd ac adnoddau ymchwil ym maes twristiaeth wedi lleihau'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Ym 1995, roedd gan Brifysgolion Caerdydd ac Abertawe, ynghyd ag Athrofa Abertawe, Gadair yr un mewn twristiaeth. Nid yw'r rhain bellach yn bod.

3.18 Ceir prif ganolbwynt addysg uwch ar hyn o bryd yn Athrofa Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd (UWIC), tra bo canolfannau eraill yn cynnig astudiaethau twristiaeth. Ond ym 1995, roedd llawer mwy o ganolfannau yn cynnig lefel uwch o astudiaeth ac ymchwil.

3.19 Er bod Cymru ar y cyfan yn gweld tynhau ar ei marchnad lafur, nid yw'r patrwm hwn yn cael ei adlewyrchu ledled yr is-ranbarthau. Mae gan rai ardaloedd swyddi heb neb i'w llenwi, h.y. Caerdydd, tra bo gan eraill y bobl, ond nid y swyddi, h.y. y cymoedd.

3.20 Felly, yn ogystal ag ymdrin â'r pynciau uchod, mae'n rhaid i'r sector twristiaeth edrych ar y canlynol er mwyn cyflenwi gofynion llafur y dyfodol:

- mae dynion yn debygol o ddod yn ffynhonnell fwy sylweddol o waith rhan amser yn y dyfodol. Yn yr is-sector twristiaeth, cyfran isel o weithwyr ar hyn o bryd sy'n ddynion, sef 39%, a thraean yn unig o'r rhain sy'n gweithio rhan amser. Awgryma'r rhagolygon cyflogaeth sydd ar gael ar gyfer Cymru fod cyflogaeth dynion rhan amser ar fin cynyddu o ryw 50%, o'i gymharu â'r 16% o gynnydd ymhlith merched;
- ffynonellau eraill o recriwtio - gweithwyr hŷn, y diwaith; gweithwyr gwirfoddol a gweithwyr o wledydd eraill.

Materion yn ymwneud â Sgiliau

3.21 Oherwydd y sail amheus i'r wybodaeth, mae'r darlun unwaith eto yn anghyflawn. Ond cafwyd cymorth astudiaethau o weithlu'r sector ynghyd ag ymgynghori gyda sefydliadau allweddol i amlygu pynciau sgiliau'r sector yn ei gyfanrwydd. Yn eu plith, ceir:

Prinder Sgiliau

- mae'r prif **ddiffygion mewn sgiliau** yn ymwneud ag ymdrin â chwsmeriaid[9] ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad ystyrir y gwir sgiliau'n hanfodol, gan mai cred cyflogwyr yw y gellir eu dysgu wrth fynd ymlaen;
- mae prinder penodol a fu'n amlwg ers cryn amser **yn y galwedigaethau**, yn arbennig felly gyda chogyddion a staff cadw tŷ;
- ceir peth tystiolaeth o **brinder dybryd** mewn sgiliau rheoli. Mewn rhai is-sectorau arbennig ystyrir bod y sgiliau rheoli presennol yn wael, megis cyrraedd penderfyniadau, datrys problemau a rheoli o bellter;
- mae angen mwy a mwy o gefnogaeth i **sgiliau technoleg gwybodaeth** - mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn amrywiol rannau o'r sector ar gynnydd, megis rheoli digwyddiadau a systemau rheoli integredig, ond ystyrir bod y lefel bresennol o sgiliau yn annigonol;
- mae ar y diwydiant digwyddiadau a chynadleddau, er mwyn cefnogi twristiaeth busnes, angen **gwell sgiliau trafod telerau**, gwell sgiliau ymdrin â chleientau a datrys problemau a gwybodaeth fanylach am ganolfannau.

Datblygiad Presennol y Gweithlu

- mae pwysigrwydd **sgiliau gwerthu** ar gynnydd wrth i'r sector geisio cadw ei dir yn yr hinsawdd gystadleuol;
- ceir tystiolaeth o fylchau mewn **sgiliau cyfathrebu**;
- mae'r twf a ragwelir yn y farchnad dramor yn cynyddu'r angen am **ieithoedd tramor modern**;
- mae angen cefnogaeth i gwrdd â gofynion **deddfwriaeth** e.e. Iechyd a Diogelwch a Hylendid Bwyd;
- mae diffyg **strwythur wrth lenwi swyddi rheoli** yn cymhlethu'r broblem uchod, gan fod amryw o'r gweithwyr sydd â gwell cymwysterau yn

[9] *Adlewyrchir yn 'Look Who's Training Now' gan HtF.*

gadael y sector i chwilio am ddyrchafiad o fewn y sectorau eraill;

- o fewn yr is-sector croesawiaeth mae'r cwestiwn o drosglwyddo o **swyddi goruchwylio i swyddi rheoli** yn codi'i ben. Mae amryw o gyflogwyr yn mynd yn ôl cymwysterau'r NEBB gan eu bod yn credu na cheir ei gyffelyb ym maes croesawiaeth.

Mân Fusnesau

- ystyrir bod **lefelau sgiliau'r rhai sy'n rhedeg mân fusnesau** yn wan mewn marchnad sy'n fwyfwy cystadleuol, yn enwedig ym meysydd arferion a pholisïau rheoli pobl;
- hefyd nid oes gan amryw o berchenogion/ rheolwyr **arbenigedd penodol mewn twristiaeth** na gwybodaeth leol a rhanbarthol;
- i'r rhai hynny sy'n rhedeg eu busnesau eu hunain, mae **sgiliau mentro** yn bwysig, ond hyd yn hyn nid ydynt yn ymddangos ar gwricwlwm hyfforddi'r ymgeiswyr newydd.

Cyflenwad Llafur

- mae'r **diffyg bri** sydd i'r sector yn golygu ei bod yn anodd denu'r nifer o bobl sydd ei angen yn y lle cyntaf, heb orfod poeni wedyn am eu hansawdd h.y. y sgiliau a ddônt gyda hwy;
- mae'r **raddfa uchel o fyfyrwyr 16 i 18 oed sy'n ymadael** yn ffactor sy'n cael ei dwysáu gan y nifer fawr o ymgeiswyr newydd i'r sector twristiaeth sy'n ymadael;
- ar hyn o bryd ni cheir unrhyw **gyrsiau gradd sy'n berthnasol i dwristiaeth busnes** yn benodol, a chyda'r twf a ragwelir mewn twristiaeth busnes, golyga fod yma fwlch sylweddol sydd angen ei lenwi;
- mae natur wledig rhai ardaloedd yn ei gwneud yn anodd i ddenu a chadw gweithwyr, a hyd yn oed o'u canfod, mae hyfforddi wedyn yn anodd.

Anawsterau Hyfforddiant

- mae'r **ymwybyddiaeth** o'r angen am hyfforddiant yn wael iawn, yn enwedig o fewn mân fusnesau, ac yn aml nid oes gan y rhai sydd yn ymwybodol o'r angen fawr o glem o'r hyn sy'n briodol iddynt;
- oherwydd natur y sector, nid oes gan y rhan fwyaf o fusnesau **swyddogaeth na chyllideb Adnoddau Dynol/hyfforddi pwrpasol;**
- mae llawer o'r busnesau yn fychan iawn, (92% yn cyflogi llai na 10 o bobl), ac felly yn methu â denu cyllid allanol i hyfforddi'r rhai dros 25 oed, sy'n ei gwneud yn debygol **na chaiff llawer o'r gweithlu fyth eu hyfforddi;**
- un pwnc sylfaenol o fewn y sector yw **cymhlethdod y fframwaith cymwysterau**, gyda llawer o'r cyflogwyr yn ansicr beth yn union ydyw'r cymwysterau, sut y maent yn berthnasol i'w gilydd, am beth y dylid chwilio a hyd yn oed pa mor berthnasol iddynt hwythau ydyw'r cymwysterau a gynigir.

Materion Daearyddol

3.22 Mae'r pynciau uchod yn berthnasol i bob ardal yng Nghymru fwy neu lai. Gwelir isod faterion sy'n deillio o'r rhain, sy'n arbennig o berthnasol i rai is-ardaloedd.

3.23 Yng Nghanolbarth Cymru:

- gwelwyd cryn arallgyfeirio oddi wrth y diwydiant amaeth, ond mae'n debyg fod penllanw hyn yn bur agos;
- pwnc i'w drafod yw'r cyfle i dderbyn hyfforddiant a'r nifer o sefydliadau Addysg Uwch/ Bellach a'r ddarpariaeth hyfforddi preifat yn yr ardal;
- yn yr un modd, mae prinder gweithwyr yn yr ardal;
- oherwydd y nifer o fusnesau bychain yn yr ardal, ymddengys nad oes fawr o fri ar hyfforddiant.

3.24 Yn Ne Cymru:

- mae ymestyn y tymor twristiaeth mewn rhai ardaloedd trefol arbennig yn cynyddu'r galw am sgiliau, a hynny mewn marchnad lafur sy'n lleihau;
- ceir problemau prinder sgiliau dybryd ymhlith pen-cogyddion a rheolwyr.

3.25 Yng Ngorllewin Cymru:

- twristiaeth tymhorol a'i sgîl effeithiau sy'n flaenllaw yn yr ardal hon;
- ymddengys mai cyfyng yw'r cyfleoedd am hyfforddiant o ansawdd da;
- mae sgiliau generig y rhai sy'n ymuno â'r sector o'r newydd yn destun pryder arbennig.

3.26 Yng Ngogledd Cymru:

- mae natur twristiaeth yn newid ac yn arallgyfeirio i feysydd arbenigol, lle gallai fod prinder/ bylchau yn y sgiliau, neu lle nad oes hyfforddiant priodol ar gael ar hyn o bryd;
- rhoddir fwyfwy lai o fri ar y diwydiant;
- mae prinder dybryd o reolwyr gwestai.

Astudiaeth Agos

3.27 Mae'r astudiaethau achos canlynol ymhlith busnesau'r sector yn amlygu a phwysleisio nifer o'r pynciau a godwyd.

Astudiaeth Achos 1: Gwesty Rossett Hall, Wrecsam - Gogledd Cymru

Gwesty annibynnol yw Rossett Hall, sy'n rhan o gadwyn 'Great Western'. Bu'n masnachu ers 14 mlynedd, ac mae'n cyflogi 25 o staff llawn amser a 25 rhan amser ac ysbeidiol. Oherwydd lleoliad y busnes ger Glannau Dyfrdwy/ Merswy, mae iddo fusnes cytbwys, nad yw'n dioddef o'r ffactorau tymhorol a gysylltir â rhannau eraill o Gymru. Yn ystod yr wythnos, daw'r mwyafrif o'i incwm o dwristiaeth busnes, gan ddibynnu ar dwristiaeth hamdden dros y penwythnosau.

Cyflawnodd y gwesty statws Buddsoddwr mewn Pobl dros dair blynedd yn ôl, ac mae'n parhau i hyfforddi ei staff mewn dull strwythuredig. I bobl ifanc, golyga hyn NVQ 3 i gychwyn. O hynny ymlaen, mae'r gweithwyr yn derbyn hyfforddiant sgiliau sy'n berthnasol i anghenion unigol e.e. gwasanaethau'r cwsmer neu anghenion busnes e.e. deddfwriaeth.

Mae'r newidiadau allweddol y sylwyd arnynt o fewn y diwydiant dros y bum mlynedd ddiwethaf yn cynnwys:

- pendilio o un dirwasgiad i'r llall sy'n effeithio'n drwm ar dwristiaeth hamdden a busnes fel ei gilydd, a

thrwy hynny ar anghenion staffio a hyfforddi'r gwestai;

- lefel y cyflenwad llafur, i'r fath raddau fel nad oedd yn bosibl recriwtio staff â'r sgiliau priodol. Golygodd hyn fod rhai meysydd yn cyflogi staff heb sgiliau;
- cynnydd yn y busnes Ewropeaidd, ond diffyg mewn sgiliau iaith;
- cynnydd yn y pwyslais ar sgiliau ymdrin â'r cwsmer. Os yw busnesau yn cynnig yr un gwasanaeth, gallant farnu ansawdd y profiad, megis 'boddhad i'r cwsmer';
- mae'r gystadleuaeth wastad yn dwysáu; rhaid i brisiau fod yn gystadleuol, a rhaid cael 'min' ar y busnes.

Mae'r Gwesty'n profi prinder arbennig o sgiliau ymhlith staff cegin, yn enwedig pen-cogyddion, sy'n adlewyrchu'r broblem genedlaethol, yn ogystal â gweini bwyd. Hefyd, mae'n anodd recriwtio pobl sydd â'r sgiliau priodol i reoli, lle ystyrir y gallu i arloesi yn adnodd pwysig.

Mae'r pynciau sector a godwyd yn ystod yr ymgynghori yn cynnwys:

- newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant heb ddigon o brofiad uniongyrchol dros gyfnod hir ei barhâd;
- pobl ifanc sy'n ymadael â'r coleg cyn bod yn barod i gyflawni gofynion y swyddi;
- diffyg cysondeb cymwysterau'r NVQ e.e. gallai ymgeiswyr gymeryd rhwng 6 a 24 mis i'w cyflawni, ac mae sgiliau'r rhai sy'n llwyddo yn amrywio'n sylweddol;
- mae gan rai busnesau ddiddordeb yn yr arian y gallant ei ddenu er mwyn hyfforddi'r gweithlu drwy, er enghraifft, Buddsoddwyr mewn Pobl neu Brentisiaethau Modern, ond nid oes ganddynt wir ddiddordeb mewn hyfforddi;
- anhawster wrth ryddhau staff i hyfforddi. Yn ddiweddar, cymerodd 15 diwrnod i ryddhau staff y gwesty ar gyfer hyfforddiant Bwyd a Hylendid;
- yr angen i staff ysbeidiol ddatblygu'n naturiol; cyflogi rhywun am ddiwrnod neu ddau, gan ddatblygu'r swydd dros gyfnod yn un lawn amser. Ond gall y system fudd-daliadau fod yn faen tramgwydd lle bo gweithwyr hŷn a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau cymhleth dan sylw;
- yn ôl y farn gyffredinol, ni fydd y gofynion sgiliau yn newid yn ystod y bum mlynedd nesaf, ar wahân i'r angen am gynnydd mewn sgiliau technoleg gwybodaeth;
- pryder arbennig ynglŷn â pha mor berthnasol yw'r GNVQ, sy'n cael ei ategu gan y ffaith nad yw'r bobl ifanc wedi'u paratoi ar gyfer y swydd.

Astudiaeth Achos 2: Nick Edwards – Health and Racquets Bro Morgannwg – De Cymru

Mae adran y gwesty o'r cwmni yn cyflogi 151 o bobl am oriau cytundeb o 37.5 awr yr wythnos. Mae hyn yn codi i 220 o bobl dros shifftiau'r Nadolig a'r haf yn ogystal â'r penwythnosau. Gwesty preifat yw hwn sy'n perthyn i bedair siop.

Mae'r cwmni ar hyn o bryd yn ceisio cyrraedd safon Buddsoddwyr mewn Pobl ac yn ystyried anghenion hyfforddi ei staff yn bwysig iawn. Mae'r diffygion sgiliau presennol yn ymwneud â gofal cwsmeriaid; mae ar y gwesty angen rhagor o bobl â'r hyder a'r urddas i weithio â'r cyhoedd. Mae'r diwydiant yn ffynnu yn yr ardal, ond yn ei chael yn anodd i lenwi swyddi. Dair blynedd yn ôl cafwyd problemau recriwtio staff cegin, yn enwedig pen-cogyddion, ond nid yw hyn mor amlwg bellach.

Mae'r pynciau a godwyd ar gyfer y sector yn cynnwys:

- prinder y farchnad lafur yn yr ardal;
- delwedd y sector, sy'n dal heb ei ystyried yn 'yrfa i'w dewis';
- sut i dargedu pobl hŷn, a allai fod yn awyddus i weithio, ond heb fod yn ymwybodol o swyddi o fewn y diwydiant;
- lefel isel o gyflogau, sy'n troi unigolion yn erbyn y sector, yn ogystal â chadarnhau'r ddelwedd wael;
- costau cyflogi uchel (40%) y diwydiant, o'i gymharu â diwydiannau eraill cyffelyb megis adwerthu (7%);
- cyfran uchel o newydd-ddyfodiaid yn ymadael o ganlyniad i'w dadrithio neu brofiadau chwerw;
- cwtogi greddfol ar gyllidebau hyfforddi gan fusnesau pan geir dirwasgiad neu dymor gwael;
- sgiliau gwael amryw o ddarlithwyr colegau, sy'n ymddangos yn hen ffasiwn ac yn bradychu'r ffaith nad oes ganddynt brofiad cyfoes o fewn y diwydiant;
- anawsterau wrth recriwtio ac annog newydd-ddyfodiaid ar hyn o bryd; nid yw Springboard yn gallu bod o gymorth.

Astudiaeth Achos 3: Sue Lloyd-Wilson – Gwely a Brecwast – Canolbarth Cymru

Busnes a reolir gan y perchennog yw hwn. Nid yw'n cyflogi neb yn uniongyrchol. Sefydlwyd 10 mlynedd yn ôl, wrth i'r perchennog sylweddoli nad oedd modd dibynnu ar ffermio yn unig.

Mae'n aelod o Fforwm Heart of Wales Farm and Country Holidays, sy'n cynnwys nifer o fusnesau bychain yng Nghanolbarth Cymru. Mae'n gonsortiwm marchnata sydd hefyd yn cynnig cefnogaeth. Ymhlith y newidiadau a ganfuwyd wrth ymgynghori, ceir:

- mae perchenogion/ rheolwyr y busnesau bychain yn mynd yn hŷn ac yn llai awyddus i dderbyn hyfforddiant;
- mae'r rhai o'r De Ddwyrain sydd wedi adleoli, ar drywydd gyrfa newydd, yn fwy parod i dderbyn hyfforddiant, ond mae angen iddynt sylweddoli beth sy'n briodol iddynt;
- o ganlyniad i resymau economaidd, mae'r raddfa o arallgyfeirio a ddigwyddodd o fewn y gymuned amaeth wedi cynyddu'r galw am sgiliau mentro, rheoli a marchnata;
- mae gan y boblogaeth frodorol lai i'w ddweud wrth hyfforddiant, gan nad yw'n gynhenid iddynt.

Roedd prinder sgiliau'r busnes yn adlewyrchu cyfnod cynnar arallgyfeirio, ac yn ymwneud â marchnata a thechnoleg gwybodaeth. Roedd y pynciau sgiliau a godwyd gan y Fforwm yn adlewyrchu hyn. Hefyd, mae poblogrwydd twristiaeth ffermydd a chyrsiau byr ar gynnydd.

Mae'r pynciau a godwyd wrth drafod yn cynnwys:

- diddymu rhai cyrsiau oedd yn bwysig i'r ardal gan nad oeddent yn ddigon poblogaidd i'w cynnal gan y cyrff dyfarnu;
- mae'r 'cawlach' diweddar ynglŷn â chymwysterau wedi drysu'r rhai sy'n ymuno â chyrsiau hyfforddi, yn ogystal â chyflogwyr;
- profiad ynysig y rhai sy'n dilyn cyrsiau NVQ; mae pobl ifanc a chyflogwyr yn dal i'w hystyried yn 'newydd a gwahanol';
- yn wahanol i'r ffigurau cenedlaethol, mae'r niferoedd sy'n ymuno â chyrsiau twristiaeth yng Nghanolbarth Cymru ar gynnydd mewn gwirionedd, yn unol â chyrsiau hamdden, ond eto, mae'r niferoedd ar y cyrsiau croesawiaeth wedi gostwng fymryn;
- gellir amau credinedd y rhai sy'n darparu hyfforddiant i'r diwydiant, sy'n ei gwneud yn anodd i annog pobl i fanteisio ar yr hyfforddiant sydd ar gael;
- pan gynigiwyd cyrsiau yn rhad ac am ddim i gyflogwyr, drwy ESF, roedd llawer yn ymuno. Ond nawr, pan fo raid talu, nid yw cyflogwyr yn fodlon/ gallu talu amdanynt;
- mae angen cynyddu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu gan y sector, ac mae angen i fusnesau fod yn fwy dyfeisgar. Bydd hyn yn gofyn am drefnu hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a hyfforddiant ar gyfer y Rhyngrwyd.

Astudiaeth Achos 4: Alison Lea-Jones – Sŵ Fôr Ynys Môn – Gogledd Cymru

Busnes a reolir gan y perchennog yw hwn sy'n cyflogi 33 o bobl pan fo'r tymor ar ei brysuraf, ond â chraidd o 10. Lleolir y staff ychwanwegol a gyflogir yn benodol ym meysydd arlwyo ac adwerthu'r busnes, tra bo'r staff parhaol yn ymwneud â'r sŵ ei hunan a chefnogi'r gweinyddu.

Mae'r cwmni wedi ennill statws Buddsoddwyr mewn Pobl ac wedi'i ail-gydnabod. Fel rhan o hyn mae pob aelod o staff yn derbyn yr hyfforddiant sy'n berthnasol i ofynion eu swyddi. Mae'r rhai sy'n ymwneud â'r ochr arlwyo yn derbyn hyfforddiant Hylendid Bwyd a Iechyd a Diogelwch. Maent ar hyn o bryd yn hyfforddi tri o'r ceidwaid pysgotai fel aseswyr. Ond, maent yn ei chael yn fwyfwy anodd i hyfforddi i safon y gofynion presennol, a bron yn amhosibl i gynllunio ar gyfer y dyfodol, oherwydd fod y busnes hwn, ynghyd â rhai eraill yn yr ardal yn troi yn llai proffidiol.

Mae'r busnes dan bwysau, gan fod llai o ymwelwyr yn dod, ac o ganlyniad i ragor o gystadleuaeth oddi wrth atyniadau eraill, heb sôn am y cynnydd yn nhreth yr Awdurdod Lleol.

Mae'r prinder sgiliau a nodir yn adlewyrchu problem genedlaethol, sef cogyddion, pen-cogyddion a goruchwylwyr ceginau. Bu prinder staff yn y meysydd hyn ers dau dymor.

Mae'r pynciau a godwyd yn ystod yr ymgynghori yn cynnwys:

- rhwydwaith mewnol gwael i gefnogi twristiaeth, gan gynnwys trafnidiaeth, addysg a hyfforddiant;
- nid yw swyddogaeth y sefydliadau sy'n ymwneud â hyfforddiant yn eglur;
- mae agwedd y gweithlu brodorol tuag at dwristiaeth yn gul, ac nid ydynt yn cydnabod fod yna broblem i'w chael;
- mae'r angen am siaradwyr Cymraeg yn golygu fod raid penderfynu weithiau rhwng penodi'r sawl sy'n gallu cyflawni gofynion moel y swydd a rhywun arall sy'n gallu siarad/ ysgrifennu yn y Gymraeg;
- mae angen i staff tymhorol allu cyflawni'r gwaith yn syth, gan nad oes gan fusnesau yr adnoddau i hyfforddi staff dros dro o hyd;
- mae rhyddhau staff i'w hyfforddi yn gost gudd i'r busnes. Rhaid cynnig cefnogaeth i fusnesau i ryddhau staff;
- mae diffyg trafnidiaeth yn yr ardaloedd gwledig yn golygu na all staff bob amser gyrraedd y gweithle, er eu bod yn fodlon gweithio;
- y darlun cyffredinol sydd gan ymwelwyr a darpar weithwyr o'r diwydiant yw un o waith caled am gyflog bychan.

4. Gweithredu Presennol ynghylch Sgiliau

4.1 Un o Amcanion Allweddol Bwrdd Croeso Cymru yw: ***'Gwella proffesiynoldeb a dyfeisgarwch drwy godi proffil y diwydiant a gwella sgiliau, hyfforddiant a symbyliad o fewn y diwydiant'***. Mae'r gwaith o gefnogi hyn yn cynnwys y canlynol:

- Mae gan Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru, sy'n hanfodol i hyrwyddo'r nod uchod, Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer 2000 - 2006;
- mae gan y Fforwm bedwar gweithgor, gan gynnwys un ar gyfer 'Darpariaeth ac Anghenion Hyfforddi';
- mae Springboard Cymru, a lansiwyd ym 1998, yn gweithio'n glos ag ysgolion a cholegau i godi proffil y diwydiant, ac i annog pobl ifanc i ymuno â'r diwydiant. Mae hefyd yn cynnig cyngor i oedolion sy'n dychwelyd i weithio;
- cydnabu'r Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant fod twristiaeth a hamdden yn ddiwydiannau sydd â photensial arbennig i ddenu pobl nad ydynt yn ennill cyflog yn ôl i weithio;
- fel rhan o'r Fargen Newydd, sefydlwyd cysylltiadau i recriwtio pobl ddiwaith a rhoi'r sgiliau angenrheidiol iddynt;
- ers 1991, un o brif fentrau hyfforddi Bwrdd Croeso Cymru fu'r cynllun Cyfaill Croeso. Oddi ar hynny, derbyniodd 51,105 o bobl hyfforddiant drwyddo.

4.2 Mae Grŵp Llywio, dan arweiniad UWIC, yn edrych pa mor ymarferol fyddai datblygu Canolfan Arbenigedd Twristiaeth a Chroesawiaeth i Gymru, wedi'i chyllido'n rhannol gan arian Amcan 1. Byddai'r Ganolfan yn cynnig dysgu, ymchwil, ymgynghoriad a hyfforddiant ar draws y sector, a'r cyfan dan yr unto.

4.3 Mae'r Sefydliad Hyfforddiant Croesawiaeth ar hyn o bryd:

- yn paratoi Rhagolwg Sgiliau a Chyflogaeth i Gymru;
- ar fin cwblhau Strategaeth Addysg a Hyfforddiant i Gymru, wedi ei seilio ar Strategaeth i'r DU a luniwyd yn Chwefror 2000;
- yn cwblhau adolygiad cynhwysfawr o fframwaith cymwysterau'r diwydiant.

4.4 Disgwylir gwybodaeth am gynlluniau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg (Stevens and Associates).

4.5 Partneriaeth o Gyrff Hyfforddi Cenedlaethol yw IMPACT, sy'n cynnwys HtF, SPRITO a TTENTO, a'i nod yw sicrhau cwrdd ag anghenion y sector. Ei weledigaeth yw:

'Sefydlu a datblygu cynghrair ffurfiol o Gyrff Hyfforddi Cenedlaethol, sy'n gweithredu ym meysydd Twristiaeth a Hamdden. Bydd IMPACT yn ychwanegu at werth yr hyn y mae pob un o'r Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol sy'n bartneriaid yn ei gyflawni drwy ganfod pa bynciau allweddol sy'n gyffredin iddynt a datblygu'r atebion strategol cyffredin, naill ai drwy'r gynghrair gyfan, neu drwy'r grwpiau sy'n cynnig eu hunain yn naturiol o'i mewn. Cydnabyddir IMPACT yn genedlaethol ac yn rhanbarthol fel elfen gref a dylanwadol ym meysydd Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant, gyda'i chyfraniadau effeithiol i ddatblygiad economaidd a chymunedol, tra'n cadw ar yr un pryd gymeriad unigol ac annibyniaeth y Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol sy'n aelodau.'

4.6 Amcanion strategol IMPACT yw:

- sefydlu a datblygu rhwydwaith cyfathrebu effeithiol i alluogi cyflwyno'i safbwynt i (llywodraeth y DU, Senedd yr Alban a) Chynulliad Cenedlaethol Cymru;
- safoni, coladu ac integreiddio canlyniadau LMI ac Ymchwil Rhagweld Sgiliau i baratoi negeseuon cydlynol am y sector Twristiaeth a Hamdden ehangach er mwyn creu deialog oddi mewn i'r sector;
- gallu ymyrryd yn drefnus ar lefelau rhanbarthol a lleol er mwyn hyrwyddo a chefnogi datblygiad economaidd a chymunedol lle ceir manteision cyffredin a darbodion maint;
- sicrhau fod safonau galwedigaethol ar draws y sector Twristiaeth a Hamdden yn ei ehangder yn cwrdd â gofynion ei gyflogwyr a buddiannau cyflogaeth eraill;
- datblygu defnyddiau cyhoeddusrwydd sy'n amlinellu cyfrifoldebau unigol pob Corff Hyfforddi Cenedlaethol yn ogystal ag agwedd gyfunol IMPACT;
- galluogi rhannu ymarfer da ymhlith partneriaid y Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol.

4.7 Mae SPRITO yn ymwneud â phrosiect i fusnesau bach a chanolig yng Ngogledd a De Cymru. Mae hyn yn rhannol er mwyn dadansoddi anghenion hyfforddi busnesau bach a chanolig. Bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn cynnig gwybodaeth am anghenion/ bylchau mewn sgiliau, fel y byddant wedyn yn gallu eu cefnogi o fewn y sector.

4.8 Mae SPRITO hefyd yn bwriadu cefnogi nod Cynulliad Cenedlaethol Cymru o gynyddu nifer y Prentisiaethau Modern yng Nghymru o 8,000 yn y flwyddyn 2000 i 14,000 erbyn 2003.

4.9 Mae gan Strategaeth Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru, 1999 - 2008 dri o feysydd polisi allweddol gan gynnwys datblygu personél a hyfforddiant, gyda'r nod o wella rheoli busnes, gofal y cwsmer, sgiliau marchnata a hyfforddi'r perchenogion, ac mewn busnesau mwy eu maint, dimau rheoli.

5. Argymhellion

5.1 Arweiniodd trafodaethau gyda phartneriaid allweddol y sector ac ymgynghori gyda chyflogwyr at nifer o argymhellion a fyddai'n cefnogi'r materion a nodir yn Adran 3. Efallai fod rhai o'r argymhellion hyn naill ai eisoes ar waith, neu wedi rhagbrofi yn rhannol/ llawn neu dan ystyriaeth gan bartneriaid allweddol.

5.2 Mae 5 o themâu allweddol sy'n ymgorffori'r argymhellion, sef:

- **Thema 1**: Ceir nifer o **bynciau strategol sy'n berthnasol i rwydwaith mewnol** y sector, y bydd yn rhaid ymdrin â hwy cyn delio'n effeithiol â'r materion yn ymwneud â sgiliau a nodir;
- **Thema 2**: Ceir nifer o broblemau o fewn y sector sy'n berthnasol i **brinder sgiliau**, sy'n bod ers nifer o flynyddoedd, y mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt;
- **Thema 3**: Mae amryw o'r materion sy'n wynebu'r gweithlu presennol yn berthnasol i faint y busnesau a bydd raid datblygu **dulliau arloesol o'u cefnogi**;
- **Thema 4**: Un pwnc arbennig a allai lesteirio datblygiad mân fusnesau yw **sgiliau'r perchennog/ rheolwr;**

- **Thema 5**: Ceir diffyg diddordeb cyffredinol yn y sector ar ran y gweithwyr presennol a'r darpar rai, a bydd **canfod llafur o'r newydd** i gwrdd â gofynion y dyfodol yn fwyfwy anodd.

5.3 Dangosir crynodeb o'r argymhellion hyn yn **Nhabl 5.1** isod.

Thema 1: Argymhellion Strategol

5.4 **Argymhelliad 1a**: Y pwnc sylfaenol y mae angen ymdrin ag ef cyn datrys llawer o'r materion yn ymwneud â sgiliau yw delwedd Cymru fel cyrchfan i dwristiaid, yn y marchnadoedd domestig a thramor. Nid yw'n eglur ar hyn o bryd beth yn union yw'r 'Ffordd Gymreig o Fyw'; mae angen canfod 'brand' Cymreig ac yna ddwysáu strategaethau marchnata sefydliadau perthnasol. **Cyfrifoldeb:** CCC/ BCC/ BTRh'au.

5.5 **Argymhelliad 1b**: Pwnc sylfaenol, a fydd yn effeithio ar ehangu'r sector yn y dyfodol, yw'r angen i wella ansawdd yn ei gyfanrwydd, yn brofiad twristiaid yn ogystal â chyflogaeth o fewn y sector ei hunan. Dylid ystyried datblygu cynllun cofrestru, a fyddai maes o law yn gwella ansawdd y naill a'r llall. Byddai gorfodi isafbwynt anghenion hyfforddiant ar yr holl weithredwyr fel rhan o gynllun o'r fath yn eu galluogi i gynyddu prisiau, a thrwy hynny godi cyflogau. **Cyfrifoldeb:** CCC/ BCC/ BTRh'au/ TQS.

5.6 **Argymhelliad 1c**: Mae'n amlwg fod angen sefydlu canolbwynt i'r sector, ac felly dylid rhoi pob ystyriaeth i ddatblygu Canolfan Arbenigedd mewn Twristiaeth a Chroesawiaeth i Gymru. Ond bydd yn bwysig ei bod yn hollol gynrychioliadol o'r sector cyfan ac o bob rhanbarth. Bydd ymgynghori'n hanfodol wrth ddatblygu'r cais a bydd angen gwneud defnydd arloesol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel rhan o'r peirianwaith. **Cyfrifoldeb**: CCC/ Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru/ UWIC.

5.7 **Argymhelliad 1ch**: Amlygodd astudiaethau diweddar, a'i gadarnhau yn yr ymchwil hon, fod angen diffiniad clir y mae pawb yn gytûn arno o beth yw'r 'sector twristiaeth'. Bydd hyn yn hanfodol wrth lywio unrhyw weithgarwch sy'n seiliedig ar bartneriaeth, yn ogystal ag i sicrhau dilysrwydd wrth gymharu data ac ati. Bydd hyn yn arbennig o wir i sefydliadau newydd sy'n datblygu, megis CETW a'r CCETau. Bydd raid eu cynorthwyo i fod yn benodol ynglŷn â'u hymrwymiad strategol i'r sector, a bydd y diffinio hwn yn hanfodol wrth gyflawni hyn. **Cyfrifoldeb**: Bydd raid diffinio'r cyfrifoldebau yn eglur, er i Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru fel rhan o'i strategaeth grybwyll diffiniad y mae'n bwriadu ei fonitro a'i adolygu.

5.8 **Argymhelliad 1d**: Unwaith y sefydlir y diffiniad uchod, bydd yn bwysig sefydlu dealltwriaeth fanwl o'r diwydiant twristiaeth, yn ogystal â natur y busnesau perthnasol, a'r math o swyddi sydd ar gael. Tynnodd adroddiadau diweddar sylw at y ffaith bod angen hyn, yn ogystal ag am ymgynghori. Amlinellir peth o hyn mewn adran bellach o'r adroddiad hwn, sy'n dwyn y teitl 'Ymchwil Bellach'. **Cyfrifoldeb**: IMPACT a Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru.

5.9 **Argymhelliad 1dd**: Mae angen sefydlu dull systematig a strategol o fonitro bylchau a phrinder yn y sgiliau er mwyn sicrhau y gall y rhai sy'n cynghori gweithlu'r dyfodol e.e. gwasanaethau gyrfaoedd, gwasanaethau cyflogi, ysgolion, rhieni ac ati elwa ar y wybodaeth ddiweddaraf, a hefyd i sicrhau fod yr hyfforddiant a gynigir yn briodol i ddelio â'r diffygion[10]. **Cyfrifoldeb**: Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru/IMPACT/Uned Sgiliau'r Dyfodol Cymru.

5.10 **Argymhelliad 1e**: Mae natur anfoddhaol y dulliau o gasglu data cyflogaeth twristiaeth a data busnes yn bwnc hanfodol. Edrychwyd yn fanwl ar hyn yn 'People, Skills and Potential'[11], ac mae angen ei ddatblygu fel pwnc strategol i Gymru. Mae'n cael ei rannol ystyried o fewn Model Cynllunio Twristiaeth i Gymru, sy'n cael ei noddi ar hyn o bryd gan BCC. **Cyfrifoldeb**: Mae hwn dan sylw Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru yn ogystal ag IMPACT fel un o'r amcanion allweddol, mewn partneriaeth â BCC, CETW, GC a'r cyflogwyr.

5.11 **Argymhelliad 1f**: Mae'n rhaid ymdrin â'r hyn sy'n ymddangos fel diffyg ffocws y rhai hynny sy'n cefnogi hyfforddiant ac addysg o fewn y sector. Mae angen cefnogi strategaeth addysg a hyfforddiant integredig i'r sector Twristiaeth yng Nghymru, yn unol ag amlinelliad Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru. Mae'n rhaid i hyn gynnwys ystyried ei aelodaeth a'i gysylltiadau â sefydliadau strategol cenedlaethol a rhanbarthol eraill. **Cyfrifoldeb**: Cynulliad/ CETW.

5.12 **Argymhelliad 1ff**: Mae angen hefyd i gefnogi IMPACT - Cymru, yn arbennig mewn perthynas â: Blaenoriaeth Strategol C, Datblygiad Rhanbarthol Economaidd a Chymunedol, a fydd yn cefnogi mentrau adfywio a thrwy hynny yn creu cyfleoedd am swyddi newydd o fewn y sectorau IMPACT; a Blaenoriaeth Strategol D, datblygu Safonau Galwedigaethol i gwrdd ymhellach ag anghenion cyflogwyr. **Cyfrifoldeb:** Cynulliad.

Thema 2: Prinder Sgiliau

5.13 **Argymhelliad 2a**: Ystyrir bod y prinderau gwaethaf yn gorwedd yn y meysydd ymdrin â'r cwsmer a sgiliau rheoli. Mae'n bwysig felly olrhain i ba raddau y mae cymwysterau'r diwydiant fel y maent ar hyn o bryd yn cwrdd â'r gofynion hyn, a hefyd fel y gellir gwella arnynt. Mae datblygu sgiliau rheoli yn arbennig o bwysig wrth annog busnesau i ymrwymo â diwylliant sy'n hyrwyddo dysgu drwy gydol oes. **Cyfrifoldeb**: CETW/ IMPACT.

5.14 **Argymhelliad 2b**: Mae nifer o ddulliau cydweithredol gan y sector twristiaeth o ymdrin â phrinder sgiliau a ddatblygwyd ar draws y DU, y dylid eu haddasu ar gyfer anghenion Cymru. Mae'n bwysig fod cynrychiolwyr y diwydiant yn astudio'r rhain, er mwyn bachu ar eu llwyddiant. **Cyfrifoldeb**: IMPACT.

5.15 **Argymhelliad 2c**: Mae'r wybodaeth a geir yn adroddiad y Sefydliad Hyfforddiant Croesawiaeth 'Progression routes into and within the hospitality industry' yn cynnig y wybodaeth berthnasol y dylid ei hanelu at gyflogwyr, pobl ifanc, gwasanaethau gyrfaoedd a chyflogaeth ac ati. Dylai Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol eraill ystyried ymgymeryd â gwaith cyffelyb lle bo hyn yn briodol. **Cyfrifoldeb**: IMPACT/ Springboard.

5.16 **Argymhelliad 2ch**: Nodwyd twristiaeth busnes fel maes tyfiant yn y dyfodol, ac fe'i ystyrir hefyd fel cefnogaeth i'r diwydiant yn ystod y 'tymor tawel'. Dylid ystyried datblygu cymwysterau penodol i gefnogi twristiaeth busnes a/ neu ehangu cymwysterau priodol presennol. **Cyfrifoldeb**: ESITO/ QCAW/ FEFC/ HEFC/ CETW.

Thema 3: Datblygu'r Gweithlu Presennol

5.17 **Argymhelliad 3a**: Oherwydd bod llawer o'r cyflogwyr yng nghefn gwlad, mae angen strategaeth i gynyddu dysgu o bell o fewn y sector, gan gynnwys cysylltiadau â'r Brifysgol Ddiwydiant. Bydd hyn yn galw am well sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a nodwyd yn ddiffygiol iawn eisoes. **Cyfrifoldeb**: Cysylltiadau â strategaeth technoleg gwybodaeth WTTF a strategiaethau datblygu gweithlu'r Corff Hyfforddi Cenedlaethol.

[10]Mae hyn yn adlewyrchu Pwyntiau Gweithredu 30 a 32 yn Strategaeth Bwrdd Croeso Cymru 'Cyflawni ein Potensial'.
[11]Cyhoeddwyd ym 1999 gan Gyngor Twristiaeth Lloegr (English Tourism Council).

5.18 **Argymhelliad 3b**: Dylid targedu cefnogaeth ariannol at fusnesau sydd wedi clystyru â'i gilydd i rannu arfer da/ costau/ hyfforddiant ac ati[12], yn enwedig lle bônt yn cefnogi diffygion/ prinder sgiliau a ddaeth i'r amlwg. Dylid gofalu fod astudiaethau achos o arfer da ar gael i'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol o fewn busnesau twristiaeth, yn ogystal â ffurfio strategaeth farchnata. **Cyfrifoldeb**: Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru/ IMPACT/ Cynghorau Hyfforddiant a Menter/ WFEFC.

5.19 **Argymhelliad 3c**: Mae cyflogwyr wedi sylwi ar nifer o rwystrau i hyfforddiant, e.e. teithio/priodoldeb y ddarpariaeth. Felly mae angen trefnu cyrsiau hyfforddi byr a hyblyg, i'w cynnal yn lleol, ond sydd hefyd yn amlygu cynnydd yn glir i'r rhai sy'n ymuno â hwy. Ar y llaw arall, mae angen i'r drefn gyllido fod yn fwy hyblyg ar gyfer cyfundrefn o'r fath. Dylai'r sector allu trafod gyda CETW pa gyrsiau sy'n sylfaenol i hyfforddi a datblygu'r diwydiant, a pha rai a ddylai dderbyn arian cyhoeddus. **Cyfrifoldeb**: Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru/IMPACT/CETW.

5.20 **Argymhelliad 3ch**: I gefnogi'r uchod, mae angen chwilio am staff llanw safonol, sydd eisoes wedi derbyn hyfforddiant, er mwyn i fusnesau allu rhyddhau staff i'w hyfforddi. Byddai hyn yn sefydlu'r angen am 'asiantaeth recriwtio dros dro', a allai arolygu cyflenwi a galw a materion eraill a fyddai'n berthnasol i ansawdd. Ar hyn o bryd, mae arbrawf ar y gweill yn Ne Ddwyrain Cymru, a dylid ei werthuso ac edrych ar y posibilrwydd o'i ymestyn. **Cyfrifoldeb**: CETW/ IMPACT/Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru / Cyrff cyflogi.

5.21 **Argymhelliad 3d**: Ond hyd yn oed pe byddai'r uchod ar gael, ystyriwyd bod gwir gostau'r hyfforddiant yn ormodol mewn sawl achos, pan yw busnesau'n pledio'r angen i leihau eu costau. Mae hyn yn arbennig o wir os ydynt yn cyflogi nifer fawr o weithwyr tymhorol neu lle bo'r busnes ei hun yn fychan iawn. Er mwyn cefnogi hyn, mae angen gwell/ rhagor o asesu sy'n seiliedig ar y gwaith, gan gynnwys clystyrau o fusnesau yn rhannu sgiliau, a thrwy hynny, gostau. Hefyd mae angen lledaenu enghreifftiau o arfer da/cost effeithiol drwy'r sector. **Cyfrifoldeb**: CETW/ IMPACT.

5.22 **Argymhelliad 3dd**: Mae codi proffil a delwedd y sector ymhlith y gweithlu presennol yn hanfodol er mwyn gwella'r raddfa o'r rhai sy'n aros yn driw a'i sbarduno. Mae'n rhaid tynnu sylw gweithwyr at amrywiaeth y cyfleoedd sy'n disgwyl amdanynt o fewn y sector, a rhaid annog busnesau i ddelio'n benodol â phynciau datblygu gyrfaoedd gyda'r staff presennol. Gellid cysylltu hyn â'r cynllun cofrestru a amlinellir yn 1c. **Cyfrifoldeb**: Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru/Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol/ CETW.

Thema 4: Mân Fusnesau

5.23 **Argymhelliad 4a**: Nododd y mwyafrif o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy bynciau'n ymwneud â'r perchenogion/rheolwyr sy'n rhedeg y rhan fwyaf o'r busnesau o fewn y sector. Mae angen datblygu cymhwyster/cwrs ar gyfer y rhai sy'n ymuno â'r diwydiant, fel gweithredwyr annibynnol i gwmpasu'r pynciau a drafodwyd yn 3.21 uchod. Mae'n hanfodol mai'r cam cyntaf fydd archwilio ar ran y farchnad pam y methodd cyrsiau blaenorol â'i datblygu. **Cyfrifoldeb**: IMPACT/CETW/Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru.

Thema 5: Cyflenwad Llafur

5.24 **Argymhelliad 5a**: Mae'n rhaid trafod yr her gyffredinol, sef delwedd y sector, gyda'r gweithlu potensial h.y. rhai'r Fargen Newydd ac eraill sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith, gweithwyr hŷn ac ati, yn ogystal â gyda phobl ifanc. **Cyfrifoldeb**: Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru/IMPACT/Springboard/GC.

5.25 **Argymhelliad 5b**: Gellid cychwyn ymdrin â'r nifer uchel o newydd-ddyfodiaid i'r sector sy'n ymadael drwy ddatblygu strategaeth fentora i'w cefnogi. Byddai hyn yn golygu cydweithio'n glos â chyflogwyr i annog aelodau presennol o'r gweithlu i wneud gwaith mentora, a gellid ei gysylltu â chynlluniau datblygu gweithwyr/Buddsoddwyr mewn Pobl ac ati. Cyfrifoldeb: IMPACT/Sefydliadau Cyswllt Addysg a Busnes.

5.26 **Argymhelliad 5c**: Yn ogystal â'r uchod, mae angen annog cyflogwyr i ofalu fod profiad cyffredinol gweithwyr newydd yn un sydd mor bositif â phosibl, a dylid annog busnesau mwy i dderbyn rhagor o bobl ifanc ar gyfer profiad gwaith a dibenion eraill yn ystod cyfnod allweddol 4. Dylai datblygu'r fframwaith Cyswllt Addysg a Busnes newydd, a fydd yn weithredol o 2001 ymlaen, ystyried y sectorau allweddol a nodwyd fel rhai economaidd bwysig i Gymru, gan roi blaenoriaeth iddynt yn eu Cynlluniau Datblygu. **Cyfrifoldeb**: IMPACT/Sefydliadau Cyswllt Addysg a Busnes/CETW.

Crynodeb o'r Argymhellion

Ceir crynodeb o'r argymhellion uchod yn **Nhabl 5.1**.

5.28 Ymhlith anghenion pellach yn y meysydd ymchwil a gwybodaeth, ceir:

- lledaenu/ deall canlyniadau Cyfnod 1 o Ragolwg HtF (Hydref 2000);
- ymchwil fanwl i'r lefel o sgiliau sydd ei hangen o fewn y sector;
- gwaith ymchwil ar effaith deddfwriaeth newydd, a amlinellwyd uchod, ar lefelau/ sgiliau staffio;
- datblygu dulliau o gynnwys mân fusnesau mewn hyfforddiant a datblygiad;
- chwilio am y rhesymau dros i) y nifer bychan sy'n ymuno â chyrsiau Addysg Bellach mewn Croesawiaeth, Hamdden a Thwristiaeth a ii) y nifer uchel sy'n ymadael â hwy cyn cwblhau'r cwrs.

5.29 Mae Cynllun Gweithredu a Strategaeth Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru hefyd yn tynnu sylw at y diffygion gwybodaeth am fusnesau twristiaeth, sy'n gofyn am ei unioni drwy ymchwil bellach:

- perchenogaeth y busnesau a chefndir y cyflogwyr;
- y niferoedd a'r mathau o fusnesau (yn ôl sector, math a'r symudiad mewn mathau o fusnesau sy'n adlewyrchu newid yn natur twristiaeth yng Nghymru;
- y nifer o weithwyr a'r ddarpariaeth/ cyllido ar gyfer hyfforddiant;
- dangosyddion perfformiad y busnesau (trosiant, elw, twf);
- cylchred oes y busnesau (blynyddoedd mewn busnes, buddsoddiadau);
- nifer o fusnesau a gychwynnodd ac a fethodd dros gyfnod o ddeuddeng mis;
- sut mae'r uned yn cadw ei busnes a'i gweithwyr.

5.30 Mae Strategaeth Dwristiaeth Ranbarthol Canolbarth Cymru 1999 - 2008 hefyd yn amlinellu'r angen am gynnal ymchwil ansoddol i'r symbyliad o fewn y sector, ynghyd â phynciau perthnasol eraill, at ddibenion datblygu hyfforddiant a phersonél.

[12]*Mae hyn yn adlewyrchu Pwynt Gweithredu 33 yn Strategaeth Bwrdd Croeso Cymru 'Cyflawni ein Potensial'.*

Tabl 5.1

Rhif y Thema	Rhif Arg.	Cam Gweithredu	Amserlen	Prif Bartneriaid
1	1a	Diffinio brand Cymru	Parhaus	WA/BCC/ Byrddau Twristiaeth Rhanbarthol
	1b	Datblygu Cynllun Cofrestru	Ebrill 2002	WA/BCC/ Byrddau Twristiaeth Rhanbarthol/ TQS
	1c	Datblygu Canolfan Arbenigedd mewn Twristiaeth a Chroesawiaeth	Ebrill 2001 ac yn barhaus	WA/CETW/ Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/UWIC
	1ch	Diffinio'r sector at ddibenion casglu/cymharu data ac ati	Ebrill 2001	BCC a phartneriaid eraill
	1d	Gwneud ymchwil fanylach i nodweddion y sector	Ebrill 2001	TFW/Impact
	1dd	Datblygu dull systematig o fonitro bylchau/prinder sgiliau	Ebrill 2001	Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Impact/ Uned FSW
	1e	Datblygu system gynhwysfawr ar gyfer casglu data	Ebrill 2001	Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Impact/ BCC/Byrddau Twristiaeth Rhanbarthol/ CETW/ Gwasanaeth Cyflogi
	1f	Cefnogaeth strategol i Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru	Awst 2000	Cynulliad/ CETW
	1ff	Cefnogi Impact Wales, yn enwedig Blaenoriaeth Strategol C	Awst 2000	Cynulliad
2	2a	Mapio cymwysterau presennol y diwydiant mewn perthynas â phrinder sgiliau a'u datblygu fel bo'n briodol	Parhaus	CETW/Impact
	2b	Archwilio dulliau cydweithredol o ddelio â phrinder sgiliau	Parhaus	Impact
	2c	Targedu gwybodaeth ynglŷn â llwybrau dyrchafiad e.e HtF, ac ystyried datblygu gwybodaeth debyg lle nad yw hon yn bodoli	Ebrill 2001	Impact/ Springboard
	2ch	Ystyried datblygu cymhwyster i fodloni anghenion twristiaeth busnes	Medi 2001	Gwasanaeth CyflogiITO/ QCA/FEFCW/ HEFCW/CETW
3	3a	Ystyried cynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar gyfleoedd i ddysgu o bell	Parhaus	Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Impact
	3b	Ystyried targedu adnoddau at gynlluniau cydweithredol yn enwedig mewn perthynas â bylchau/prinder sgiliau	Parhaus	Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Impact/ CETW
	3c	Ystyried hyblygrwydd pellach o ran llunio a darparu hyfforddiant	Parhaus	Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/ Impact/CETW
	3ch	Ystyried datblygu 'asiantaeth' i ddarparu gweithwyr llanw ar gyfer micro fusnesau	Ebrill 2001	CETW/Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Impact/ Cyflogwr

Rhif y Thema	Rhif Arg.	Cam Gweithredu	Amserlen	Prif Bartneriaid
	3d	Datblygu busnesau er mwyn gwneud asesiadau gwell yn seiliedig	Parhaus	CETW/Impact/ Cyflogwr
	3dd	Dulliau gwell o hyrwyddo llwybrau dyrchafiad i'r rheini sydd yn y sector eisoes	Parhaus	Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Impact/ CETW
4	4a	Ystyried datblygu cymhwyster ar gyfer gweithredwyr unigol	Ebrill 2001	CETW/Impact/ Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru
5	5a	Ystyried targedu'r gweithlu posibl (ddim yn draddodiadol)	Parhaus	CETW/ Gwasanaeth Cyflogi/ Springboard/ EBPs
	5b	Ystyried datblygu rhaglen fentora newydd ar gyfer ymgeiswyr newydd	Ebrill 2001	Impact/ Springboard/ EBPs
	5c	Gwneud yn fawr o'r cyfleoedd sy'n deillio o strwythur newydd y Cyswllt Busnes ac Addysg	Ebrill 2001	CETW/Impact/ Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/EBPs

Atodiad A: Llyfryddiaeth

Adroddiad NEDO ar Dwristiaeth y DU: **Competing for Growth** 1992.

Adroddiad yr Adran Treftadaeth Genedlaethol, **'Tourism: Competing with the Best. No 3 - People Working in Tourism and Hospitality'** (1996).

Aolygiad o'r Farchnad Lafur 2000 **y Diwydiant Croesawiaeth.**

'Tourism Employment Action for the Millenium': Stevens and Associates.
'Employment and Training in the Tourism Sector in Wales': DTZ Pieda Consulting.

Cyflawni ein Potensial; Strategaeth Dwristiaeth i Gymru: Bwrdd Croeso Cymru.

Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru; Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer y cyfnod 2000 - 2006: Stevens and Associates.

Strategaeth Addysg a Hyfforddiant y diwydiant croesawiaeth; Adroddiad Cydgysylltwr: HtF.

Progression Routes into and within the Hospitality Industry: HtF.

Business Tourism Leads the Way: Fforwm Twristiaeth Busnes a Phwyllgor Ymgynghorol Twristiaeth Busnes.
Look Who's Training Now: HtF.

Strategaeth Dwristiaeth Ranbarthol Canolbarth Cymru
.
Strategaeth Dwristiaeth Ranbarthol De Ddwyrain Cymru.

Strategaeth Dwristiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.

Atodiad B: Diffiniadau'r dosbarthiad diwydiannol safonol

Codau'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol

Dosbarthiad	Cod	Disgrifiad
Bariau	554	Clybiau trwyddedig ac adloniant; tafarndai a bariau.
Gwersylla	552	Hosteli ieuenctid a llochesi mynydd; safleoedd gwersylla, gan gynnwys meysydd carafanau; darpariaeth llety arall nas dosbarthwyd yn unman arall; canolfannau gwyliau a phentrefi gwyliau; lletyau eraill hunan arlwyo; lletyau twristiaeth neu gyfnod byr eraill.
Gwestai	551	Gwestai a motelau gyda bwytai; gwestai a motelau trwyddedig; gwestai a motelau heb drwydded; gwestai a motelau heb fwyty.
Llyfrgelloeddn ac Amgueddfeydd	925	Gweithgareddau llyfrgell ac archifdy; gweithgareddau gweithgareddau amgueddfa a chadwraeth safleoedd ac adeiladau hanesyddol; gerddi botanegol a sŵolegol a gweithgareddau gwarchodfeydd natu
Eraill	927	Gweithgareddau parciau hamdden a thraethau; gweithgareddau perthnasol i bysgota hamdden; cyfleusterau trafnidiaeth hamdden; y sinema, teledu a gweithgareddau castio theatrig eraill.
Bwytai	53	Bwytai trwyddedig; bwytai heb drwydded a chaffis; siopau bwydydd parod.
Chwaraeon	926	Rhedeg meysydd chwarae ac awditoria; trefnu a chynnal digwyddiadau chwaraeon; rhedeg ysgolion chwaraeon a gemau; gweithgareddau ysgolion marchogaeth; gweithgareddau marinas.
Siopau gwyliau	633	Gweithgareddau trefnwyr teithiau; gweithgareddau tywyswyr teithiau.

Atodiad C: Cymwysterau			
Grŵp yn ol dosbarthiad	**Nifer o gyrsiau ym 1998**	**Nifger o Gofrestriadau**	**% +/- ers 1997 (Cofrestriadau)**
Cynadledda (Gwesty)	0	0	0
Gwasanaethau Croesawiaeth (Gwesty)	1	13	- 93
Gwasanaethau Croesawiaeth	1	2	- 82
Derbynfa Gwesty	3	40	+ 571
Cadw Tŷ	3	21	- 43
Gwaith Cyfleusterau Hamdden	3	23	+ 209
Rheoli Hamdden (Cyffredinol)	12	358	+365
Astudiaethau Hamdden	40	1484	- 16
Teithiau Hamdden	2	25	+ 208
Trefnu Gweithgareddau Awyr Agored	3	24	+ 160
Porthora/ Gofalu	1	2	+ 100
Gwaith Cyfleusterau Chwaraeon	3	91	- 16
Astudiaethau Chwaraeon (Cyffredinol)	24	1258	+ 3
Trefnu Teithiau (Domestig)	1	8	+ 800
Twristiaeth	9	130	+ 44
Datblygu/Hyrwyddo Twristiaeth	3	22	+ 129
Twristiaeth/Teithio	11	250	- 2
Tywys Twristiaid	3	48	- 74
Teithio	10	209	- 4
Gwaith Siopau Gwyliau	8	148	- 11
Astudiaethau Teithio (Cyffredinol)	5	68	+ 243
Eraill (wedi'u cynnwys gan FEFCW)	55	964	
Cyfanswm	**201**	**5188**	**- 1%** [13]

Atodiau CH: Sectorau yn eu cyd-destun

Arolwg Byr o Faint a Phwysigrwydd Cymharol y Sectorau Cymreig

Mae'r papur hwn yn bwrw golwg dros y sectorau y dewisodd Sgiliau'r Dyfodol Cymru eu hastudio fel rhan o'r project ar sgiliau sectoraidd. Ei nod yw rhoi syniad o faint cymharol y sectorau dan sylw a pha mor bwysig ydynt yng Nghymru.

Daw'r data ar gyflogaeth a ddefnyddir yn yr adran hon o amcangyfrifon diweddaraf Business Strategies Limited (Awst 2000). Cafwyd y data ar unedau busnes gan NOMIS. Ni fydd rhai o'r gwerthoedd a roddir (er enghraifft ar gyfer nifer y busnesau yng Nghymru neu faint y gweithlu mewn sector arbennig) yn cytuno ag amcangyfrifon a chyfrifiadau o ffynonellau eraill. Mae hyn oherwydd gwahaniaethau yn y dull o ddiffinio sector, neu yn y dull o amcangyfrif. Fodd bynnag, trwy gadw at un ffynhonnell ar gyfer y drafodaeth hon roedd modd sicrhau cysondeb ac, o'r herwydd, gwell cymhareb. Mae hyn yn bwysig gan ein bod yn ymwneud yma â meintiau cymharol sectorau a nifer eu gweithwyr llawn gymaint â rhifau absoliwt.

Maint y Sector: Nifer y Gweithlu

Mae **Ffigwr Ch.1** yn dangos ffigurau cyflogaeth ar gyfer pob un o'r sectorau (cyflogedig a hunangyflogedig) fel canran o'r cyfanswm Cymreig. Yn ôl y mesur hwn Twristiaeth, Hamdden a Chroeso yw'r sector mwyaf o blith y rhai a ddewiswyd, yn cael ei ddilyn gan Wasanaethau Busnes a Chyllid, Gofal Cymdeithasol, Amaeth a Mentrau Fferm. Ar y cyd, mae'r naw sector a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn darparu gwaith (cyflogedig a hunangyflogedig) i oddeutu 26% o'r bobl sy'n gweithio yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi syniad o rychwant a phwysigrwydd yr ymarferiad o ran deall materion yn ymwneud â sgiliau yng Nghymru a ffurfio polisïau i ymateb i'r materion hyn. (Sector cyhoeddus mawr sy'n gyfrifol am weddill cyflogaeth Cymru, yn cynnwys llywodraeth, addysg a gofal iechyd sector cyhoeddus, yn ogystal â'r sectorau primaidd, adeiladu, trafnidiaeth a chludiant, yn cynnwys manwerthu.)

Ffigwr Ch.1: Cyflogaeth fel canran o Gyflogaeth Cymru: yn ôl Sector



Ffynhonnell: Rhagolwg Sector Sgiliau'r Dyfodol Cymru, BSL

Cyniferyddion Lleoliad Cyflogaeth

Mae **Ffigwr Ch.2** yn edrych ar sectorau yn nhermau eu pwysigrwydd o fewn Cymru o gymharu â'r DU i gyd. Mae'n gwneud hyn trwy gymharu cyniferoedd lleoliad cyflogaeth y sectorau. Defnyddir cyniferyddion lleoliad cyflogaeth i fynegi i ba raddau mae cyflogaeth mewn sector arbennig wedi'i leoli mewn rhanbarth arbennig. I ddarganfod cyniferydd lleoliad, rhaid canfod yn gyntaf beth yw'r ganran gyfartalog ar gyfer holl gyflogaeth y rhanbarth. Er enghraifft, trwy ddefnyddio amcangyfrifon BSL, gwelwn fod 4.3% o holl gyflogaeth y DU wedi'i leoli yng Nghymru.

[13]*Y ganran o leihâd yn y cyfanswm yw hon, yn hytrach na chyfartaledd y golofn.*

Ffigwr Ch.2: Cyniferyddion Lleoliad Cyflogaeth Cymru: yn ôl Sector



Ffynhonnell: Rhagolwg Sector Sgiliau'r Dyfodol Cymru, BSL

Felly, os yw cyflogaeth mewn sector arbennig wedi'i ddosbarthu'n gyfartal dros holl ranbarthau'r DU byddai disgwyl i 4.3% o'i gyflogaeth fod yng Nghymru. Byddai canran cyflogaeth y sector yng Nghymru, sef 4.3%, yn gyfwerth â chanran gyfartalog cyflogaeth yng Nghymru.

I ddarganfod y cyniferydd lleoliad cyflogaeth, mae canran y sector yn cael ei fynegi fel cymhareb o'r ganran gyfartalog ar gyfer Cymru. Er enghraifft, os oes gan sector 5.2% o gyflogaeth y DU, byddai'r cyniferydd lleoliad cyflogaeth yn gymhareb o 5.2 i 4.3, neu 1.2. Felly, mae cyniferyddion o fwy nag 1 yn dangos gor-gynrychiolaeth o gyflogaeth yn y sector Gymreig o'i gymharu â'r DU i gyd. Mae cyniferyddion sydd oddeutu 1 yn dangos bod cyflogaeth yn y sector yng Nghymru yn debyg i'r hyn sydd i'w ddisgwyl o ystyried dosbarthiad cyffredinol cyflogaeth ar draws y DU. Mae cyniferyddion sydd o dan 1 yn nodi bod y sector yng Nghymru wedi'i dan-gynrychioli i raddau o ran cyflogaeth.
Dengys **Ffigwr Ch.2** mai'r sectorau cryfaf yng Nghymru yn hyn o beth yw Amaeth a thri o'r is-sectorau cynhyrchu - Moduron, Awyrofod ac Electroneg. Mae cyflogaeth y sectorau hyn yn y DU wedi'i ganolbwyntio i raddau yng Nghymru, er gwaetha'r ffaith bod rhai ohonynt yn fach o gymharu â chyflogaeth yn gyffredinol yng Nghymru (Ffigwr Ch.1.). Mae'r sector Gofal

Cymdeithasol hefyd yn gryf o ran cyflogaeth tra bod Prosesu Bwyd a Thwristiaeth, Hamdden a Chroesawiaeth yn cyfateb i gyfran Cymru o gyflogaeth y DU.

Mae sector y Cyfryngau a'r Cyfryngau Newydd a'r sector Gwasanaethau Busnes a Chyllid wedi'u tan-gynrychioli yng Nghymru o ran cyflogaeth, gyda chyniferyddion lleoliad cyflogaeth ymhell o dan 1.

Maint y Sector: Nifer y Busnesau

Dull arall o gymharu sectorau yw yn ôl nifer yr unedau busnes o fewn pob sector. Gall hyn fod yn llai syml na'r dull uchod o ddefnyddio cyniferyddion lleoliad cyflogaeth. Yma rydym yn defnyddio data ar unedau busnes yng Nghymru a Phrydain gyfan a geir yn NOMIS. Y prif anhawster yw'r ddiffiniad o uned fusnes o fewn y ffigurau a gyhoeddwyd. Nid ydynt yn gwahaniaethu rhwng busnesau ar wahân, a changhennau neu safleoedd o fewn un busnes. Mae hefyd yn hepgor safleoedd busnes bach 'un person' nad ydynt yn cyflogi gweithwyr ffurfiol.

Golyga hyn y gall y ffigurau fod yn gamarweiniol, yn enwedig yng nghyd-destun y sector amaethyddol gan eu bod yn cynrychioli busnesau amaethyddol sy'n cyflogi gweithwyr, yn hytrach na phob fferm. Felly mae'r ffigurau ar gyfer mentrau amaethyddol yng Nghymru yn rhy isel o lawer. Er bod y ffigurau ar gyfer unedau busnes amaethyddol wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad canlynol, **nid ydynt yn adlewyrchu'n deg nifer y safleoedd amaethyddol yng Nghymru**.

Mae **Ffigwr Ch.3** yn dangos y sectorau a astudiwyd yng nghyd-destun nifer yr unedau busnes yng Nghymru. Yn ôl y mesur hwn mae'n dangos mai'r sector Twristiaeth, Hamdden a Chroesawiaeth yw'r mwyaf o ddigon. Yn ôl ffigurau NOMIS, mae'r sector hwn yn cynnwys 12.4% o holl unedau busnes Cymru - oddeutu 1 o bob 8.

Mae 6.6% pellach o unedau busnes Cymru yn y sector Busnes a Chyllid, a 3.2% mewn Gofal Cymdeithasol. Mae'r sector nesaf atynt sef y Cyfryngau a'r Cyfryngau Newydd yn cynnwys nifer fawr o fusnesau a ddosberthir o dan 'gwasanaethau cyfrifiadurol eraill'. Fe all nifer o'r rhain fod yn fusnesau 'Cyfryngau Newydd' sy'n cyfateb i'n diffiniad ni yn yr astudiaeth hon. Ond efallai bod eraill yn darparu gwasanaethau hollol amherthnasol. Fel yr eglurwyd uchod, nid yw'r ffigurau ar gyfer amaethyddiaeth yn adlewyrchiad cywir o'r sector hwn.

Ar y cyd mae'r sectorau a gynhwyswyd yn yr astudiaeth hon yn gyfrifol am 25% o'r unedau busnes a leolir yng Nghymru.

Ffigwr Ch.3: Nifer yr Unedau Busnes - Sectorau Dethol



Ffynhonnell: NOMIS

Cyniferoedd Lleoliad Safle y Sectorau Cymreig

Mae Ffigwr Ch.4 yn dangos y cyniferoedd lleoliad safle ar gyfer y sectorau yn yr astudiaeth hon. Mae'r rhain wedi cael eu cyfrifo yn yr un modd â'r cyniferoedd lleoliad cyflogaeth a ddisgrifiwyd uchod ond gan ddefnyddio ffigurau unedau busnes yn hytrach na ffigurau cyflogaeth. Mae gan bedwar o'r sectorau gyniferoedd sy'n uwch nag 1. Felly mae'r sectorau hyn wedi'u gor-gynrychioli yng Nghymru o'i gymharu â'r hyn y byddai rhywun yn ei ddisgwyl o ystyried Prydain i gyd. Mae'r cyniferoedd hyn yn dangos bod unedau busnes y sectorau hyn wedi'u crynhoi i raddau yng Nghymru. Y sectorau yw Awyrofod, Twristiaeth, Hamdden a Chroesawiaeth, Gofal Cymdeithasol a Phrosesu Bwyd.

Mae'r sector Cynhyrchu Moduron yng Nghymru, gyda chyniferydd lleoliad o 0.96, yn debyg i'r disgwyl o ran ei faint (yn ôl nifer yr unedau busnes). Mewn geiriau eraill, mae gan Gymru 'gyfran deg' o unedau busnes yn y sector hwn, yn ôl ffigurau NOMIS. Yn y pegwn arall, mae'r sector Busnes a Chyllid, gyda chyniferydd lleoliad safle o ddim ond 0.6, wedi'i dan-gynrychioli yng Nghymru - gan gadarnhau casgliadau astudiaeth gyntaf Sgiliau'r Dyfodol Cymru ym 1998.

Unwaith eto, mae'r cyniferydd ar gyfer 'Busnesau Amaethyddol' yn adlewyrchu cyfyngiadau'r dull, er ei fod mae'n debyg yn dangos bod ffermydd a busnesau amaethyddol yng Nghymru yn tueddu i fod yn llai na'r cyffredin ym Mhrydain yn yr ystyr bod llai ohonynt yn ddigon mawr i gael eu cynnwys fel unedau busnes.

Ffigwr Ch.4: Cyniferoedd Lleoliad Safle



Ffynhonnell: NOMIS

Dethol Sectorau ar gyfer yr Archwiliad

Mae'r drafodaeth uchod yn egluro i raddau pam y dewiswyd y naw sector dan sylw. Mae'r rhesymau'n amrywio, ond gellir eu mynegi'n syml fel a ganlyn (dewiswyd ambell sector am fwy nag un rheswm):

- sectorau gyda chyfran sylweddol o fusnesau a / neu gweithwyr yng Nghymru (Twristiaeth, Busnes a Chyllid, Gofal Cymdeithasol);
- sectorau sy'n bwysig i'r diwydiant cynhyrchu yng Nghymru (Awyrofod, Electroneg, Moduron a Phrosesu Bwyd);
- sectorau sy'n gymharol gryf yng Nghymru (Awyrofod, Twristiaeth, Gofal Cymdeithasol; Prosesu Bwyd);
- sectorau sy'n gymharol wan yng Nghymru, ond sy'n bwysig ar gyfer twf pellach (Busnes a Chyllid, Cyfryngau / Cyfryngau Newydd);
- sectorau o arwyddocâd arbennig i ddiwylliant a chymunedau Cymru (Amaethyddiaeth, Cyfryngau / Cyfryngau Newydd).

Y Sector Cynhyrchu

Mae cynhyrchu wedi bod yn elfen bwysicach o economi Cymru na gweddill y DU. Ym 1998 roedd cyflogaeth yn y sector cynhyrchu (gan gynnwys y sectorau a astudiwyd yn y prosiect hwn ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) yn cyfrif am 19.7% o gyflogaeth Cymru. Roedd hyn yn cymharu â 16.6% ar gyfer y DU - gwahaniaeth o 3.4 pwynt canran. Dengys rhagolygon ar gyfer 2004 y bydd swyddi cynhyrchu yn ganran is o gyflogaeth yn y ddau achos - 17.3% yng Nghymru o'i gymharu â 14% ar gyfer y DU. Er bod y canrannau'n is, mae'r gwahaniaeth rhwng Cymru a'r DU, sef 3.3 pwynt canran, bron iawn yr un fath. (DfEE, Skillsbase/IER, Mehefin 2000.)

Er bod y rhagolygon yn dangos dirywiad pur sylweddol ym maint y sector cynhyrchu fel canran o gyflogaeth Cymru, nid yw'r rhifau absoliwt yn newid cymaint. Mae hyn oherwydd y cynnydd a ragwelir yng nghyfanswm cyflogaeth Cymru dros y cyfnod 1998-2004. Felly, mae ffigwr o 227,000 ar gyfer cyflogaeth ym maes cynhyrchu ym 1998 yn newid i 205,000 yn 2004 - gostyngiad o 22,000, neu ychydig dan ddeg y cant.

Mae'n bwysig cofio, wrth ystyried y galw am sgiliau yn y dyfodol, nad yw dirywiad cymharol yn y sector cynhyrchu yn awgrymu na fydd galw am sgiliau cynhyrchu yn

y dyfodol, fel y dangosir uchod. Dyma un o sylfeini methodoleg gwreiddiol prosiect Sgiliau'r Dyfodol Cymru.

Mae'r pwynt hwn yn cael ei amlygu ymhellach gan ragolygon o'r galw am lenwi swyddi o'r newydd mewn galwedigaethau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu. Dengys **Ffigwr Ch.5** y sgiliau y bydd eu hangen ar weithwyr trin metel a thrydanwyr (SOC 52) drwy'r DU yn ystod y cyfnod 1998-2004. Yn y cyfnod hwn, disgwylir i 145,600 o swyddi ddiflannu yn y galwedigaethau hyn - rhan o'r dirywiad cyffredinol mewn cyflogaeth ym maes cynhyrchu a ddisgrifiwyd uchod. Serch hynny, rhagwelir y bydd 248,000 o'r swyddi hyn yn diflannu wrth i bobl ymddeol, a 56,600 wrth i bobl symud i swyddi eraill, felly bydd angen gweithwyr newydd ar gyfer 304,600 o swyddi. Mae hyn yn gwrthbwyso effeithiau'r dirywiad mewn cyflogaeth, gan adael ffigwr net o 169,500. Mae hyn yn golygu y bydd angen cymaint â hynny o weithwyr newydd, wedi'u hyfforddi, i ymuno â'r galwedigaethau hyn yn ystod y chwe blynedd nesaf. Gall y rhain fod yn bobl sy'n ymuno â'r gweithlu am y tro cyntaf, neu'n weithwyr presennol sy'n symud i swyddi gwell neu'n ychwanegu at eu sgiliau a'u cymwysterau.

Ar sail y ragdybiaeth y byddai angen rhyw 4.5% o'r ffigwr hwn yng Nghymru (sef maint cymharol gweithlu Cymru o'i gymharu â gweithlu'r DU), mae hyn yn awgrymu y bydd angen angen rhyw 7,600 o weithwyr trin metel a thrydanwyr crefftus yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn.

Ffigwr Ch.5: Y Galw am Weithwyr o'r Newydd: Gweithwyr Metel a Thrydanwyr Crefftus 1998-2005 (y DU)



Ffynhonell: DFEE Skillsbase/IER

Nodiadau

Cydnabyddiaeth

Alison Lea-Wilson – Anglesey Sea Zoo
Tony Rogers – BAC
Arwyn Watkins – Cambrian Training
Sue Lloyd-Jones – Coleg Powys
Denise Lavis – Cultural Heritage NTO
Robert Strange – FEFCW
Catrin James – HTF NTO
Chris Osborne – HTF/ Fourcroft Hotel
Jim Moor – Maes-Y-Gwernen
David Peate – Mid Wales Tourism
Dewi Davis – Mid Wales Tourism
Darryl Shaw – Rossett Hall Hotel
Gareth Edwards – Springboard
Alun Davies – SPRITO
David Henwood – SPRITO
Terry Stevenson – Stevenson Associates
John Walsh – TEAM Cardiff
Peter Cole – Tourism S&W
Chris Jackson – Welsh Mountain Zoo
Caroline Horrigan – TTENTO
Sheridan Jeffery – UWIC
Nick Edwards – Vale of Glamorgan Health and Raquets
Diana James – Wales Tourist Board

Safbwyntiau York Consulting Cyfyngedig yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn.
Margot Clements, Awst 2000.